**Strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru 2020/21 - 2022/23**
**(Adolygwyd Medi 2021)**

| | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | Prifysgol Bangor |
| **Arweinydd Strategaeth CAYC:** | Yr Athro Paul Spencer, Dirprwy Is-ganghellor Ymchwil ac Arloesi<br>**Arweinydd Gweinyddol:** John Jackson, Uwch Swyddog Cynllunio |
| **E-bost**: | j.jackson@bangor.ac.uk |
| **Ffôn:** | 01248 383583 |

## Adran A: Trosolwg

### 1. Uchelgeisiau strategol

*Rhowch drosolwg o ddull tair blynedd [a thu hwnt os oes cynlluniau tymor hwy ar gael] eich sefydliad o safbwynt gweithgarwch ymchwil ac arloesi a gaiff ei gefnogi gan Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru (CAYC). Efallai y byddwch am amlygu'r meysydd bras yr ydych yn eu targedu, a disgrifio sut bydd cyllid CAYC yn alinio â chenhadaeth eich sefydliad a'ch strategaethau mewnol.* [Uchafswm o 300 o eiriau]

Un uchelgais strategol allweddol gan y Brifysgol yw cael ei chydnabod fel **Prifysgol Ddwyieithog ac Entrepreneuraidd dan Arweiniad Ymchwil yng Ngogledd Cymru ac ar gyfer Gogledd Cymru**. Mae cefnogaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru yn rhan annatod o gyflawni'r dyhead hwnnw ac mae'r strategaeth hon yn amlinellu sut y bydd gweithgarwch Arloesi ac Ymgysylltu'r Brifysgol yn cyflawni hynny. Elfen allweddol yn ein gweledigaeth yw'r cyfraniad trawsnewidiol y gall y Brifysgol ei wneud i'r rhanbarth yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Rydym yn rhagweld **Cilgant Arloesi**, yn ymestyn o Weriniaeth Iwerddon i bwerdy gogledd orllewin Lloegr gyda'r Brifysgol yn y canol yn gwthio agenda **arloesi ar sail lle** sy'n cydnabod potensial trawsnewidiol **gwyddoniaeth fawr** ar yr economi. Mae **cydweithredu trawsffiniol** yn enwedig gyda Phwerdy Gogledd Lloegr yn allweddol er mwyn cyflawni hyn. Llunnir y strategaeth hon ar adeg bwysig i'r sefydliad sydd bellach â gweledigaeth ac arweinyddiaeth sefydliadol newydd a phan fo angen dybryd i lywio trwy'r amgylchedd cyllido newydd **ôl Brexit** pan fydd yr economi o bosibl wedi ei llethu yn sgil **pandemig COVID-19**. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd a heriau.

Yn ogystal â bod wedi ei chydnabod am ei Rhagoriaeth Ymchwil, mae gan Brifysgol Bangor enw da am ddarparu rhaglenni **Cyfnewid Gwybodaeth a Masnacheiddio (KEC)** o ansawdd uchel sydd wedi ennill nifer o wobrau, sy'n canolbwyntio ar ysbrydoli arloesedd, gwella perfformiad a hyrwyddo cynaliadwyedd ac mae hynny'n ei dro wedi cyfrannu at enw da rhyngwladol y Brifysgol am effaith addysgu ac ymchwil. Yn gyffredinol mae ein perfformiad yn y mesur cenedlaethol Arloesi ac Ymgysylltu yn dangos gwelliant flwyddyn ar ôl blwyddyn. Fodd bynnag, cydnabyddir bod rhaid cynyddu gweithgarwch Arloesi ac Ymgysylltu er mwyn cyflawni'r effaith drawsnewidiol sy'n ofynnol i gefnogi'r economi ranbarthol ac economi'r Deyrnas Unedig.

Yn sail i'r strategaeth hon mae Strategaeth 2030 y Brifysgol, sef strategaeth sydd newydd ei datblygu sy'n darparu gweledigaeth y sefydliad ar gyfer y degawd nesaf. Mae'r dull yn cynnwys nifer o elfennau strategol bwysig wedi'u grwpio o amgylch yr angen i Ail-leoli, Ail-alinio ac Ailadeiladu ein darpariaeth fel bod gennym y strwythurau ystwyth, y mecanweithiau cefnogi a'r prosesau priodol i sicrhau y gellir defnyddio a rhoi gwybodaeth academaidd a galluoedd Bangor ar waith i gefnogi datblygiad cymdeithasol ac economaidd. Mae'r syniadaeth hon yn ei thro yn cael ei hadlewyrchu yn ein blaenoriaethau o ran buddsoddiad Arloesi ac Ymgysylltu gan Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru a bydd yn darparu sylfaen gadarn y gallwn ei defnyddio er mwyn cynyddu effaith y Sefydliad, gan sefydlu partneriaethau strategol yn lleol gyda busnesau bach a chanolig a sefydliadau mwy, a chyda chwmnïau mawr amlwladol.

| *Ail-leoli* | *Ail-alinio* | *Ailadeiladu* |
|---|---|---|
| Cael ein cydnabod fel ***Prifysgol Entrepreneuraidd dan Arweiniad Ymchwil yng Ngogledd Cymru*;** | Cydnabod ehangder y gweithgareddau Arloesi ac Ymgysylltu ar draws y Brifysgol a sicrhau eu bod yn gwreiddio ac yn cael eu prif-ffrydio | **Cydweithredu ac Arloesi at Adferiad** - rhoi lle blaenllaw i weithgarwch Arloesi ac Ymgysylltu fel rhan o gyfraniad Bangor at adferiad economaidd yn dilyn COVID-19 |
| Datblygu cysyniad **Cilgant Arloesi Gogledd Cymru** | Mabwysiadu 8 egwyddor y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth a'u defnyddio fel 'egwyddorion trefniadol' | Optimeiddio a chynyddu capasiti Arloesi ac Ymgysylltu ar ôl cyfnod o ddadfuddsoddi |
| **Rhoi dull ar sail lle wrth wraidd ein cyfraniad Arloesi ac Ymgysylltu;** | Mabwysiadu mesurau Arloesi ac Ymgysylltu cenedlaethol fel rhan o bortffolio'r sefydliad o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol | Datblygu capasiti ar draws y sefydliad i gyflawni'r newid sylweddol o ran gweithgarwch Arloesi ac Ymgysylltu. |
| Rhoi pwyslais o'r newydd ar **Ymchwil Gymhwysol, Arloesi, Menter** a **Chenhadaeth Ddinesig.** | Defnyddio cefnogaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru trwy fuddsoddiadau cysylltiedig i alinio'r Concordat Cyfnewid Gwybodaeth yn well gydag agendâu Effaith, Menter, Cyflogadwyedd a Phrifysgol Ddinesig | Yn y byd ôl COVID-19, cynyddu gweithgarwch arloesi a masnacheiddio yn y maes academaidd sy'n gysylltiedig â'r mesurau cenedlaethol priodol ym maes Arloesi ac Ymgysylltu |
| | Wedi Brexit, trawsnewid o fod â'r Cronfeydd Strwythurol yn brif ffynhonnell gefnogaeth Ymchwil ac Arloesi i flaenoriaethu cyllid arall a enillir trwy gystadleuaeth | Adeiladu ar berfformiad cryf Bangor yn Arolwg Rhyngweithiad Addysg Uwch - Busnes a Chymuned a gwella ein henw da ymhellach |
| | | Ymgorffori darpariaeth greiddiol o **Wybodaeth** a **Thalent** i fusnesau a chyflogwyr ac ailadeiladu portffolio o bartneriaethau strategol gyda sefydliadau allweddol |

Yn sail i'r strategaeth dair blynedd hon mae dull gweithredu fesul cam:

| ***Blwyddyn 1*** | ***Blwyddyn 2*** | ***Blwyddyn 3*** |
|---|---|---|
| Cydgrynhoi, Integreiddio a Gosod Sylfeini Twf *(Ail-leoli, Ail-alinio, Ailadeiladu)* | Darpariaeth wedi ei Optimeiddio a Thwf<br>Gweithio arloesol ac ystwyth | Cyfoethogi Twf<br>Dulliau newydd ac arloesol |
| Pennu gwaelodlin perfformiad ôl-COVID | Monitro perfformiad | Adolygu a diwygio'r strategaeth |
| Blaenoriaethau Buddsoddi Cychwynnol | Blaenoriaethu buddsoddiadau pellach | Mynd i'r afael â chyfleoedd newydd |

## 2. Grant Capasiti

*Esboniwch yn fras sut mae eich sefydliad yn bwriadu defnyddio'r grant capasiti sydd wedi'i gynnwys o fewn CAYC, a'r Gronfa Datblygu Capasiti Arloesi untro (gweler paragraff 14 yng nghylchlythyr W20/09HE am arweiniad pellach ar y Grant Capasiti). Sut caiff hwn ei ddefnyddio i gefnogi a gwella capasiti a darparu cymhelliant a gwella perfformiad o safbwynt cyfnewid gwybodaeth?* [Uchafswm o 300 o eiriau]

Ein dull wrth ymwneud ag elfen Grant Capasiti dyraniadau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru ac ICDF yw sicrhau cydbwysedd priodol rhwng cefnogi costau presennol arloesi ac ymgysylltu ('*Buddsoddiad Craidd*') a nodi a buddsoddi mewn gweithgarwch newydd ('*Cyfoethogi Buddsoddiad*') gan arwain at berfformiad gwell yn y mesurau arloesi ac ymgysylltu cenedlaethol. Rydym wedi llunio dull deinamig sy'n diwallu'r ddau angen hwn gan gynnwys graddfa symudol sy'n rhoi'r pwyslais ar '*Fuddsoddiad Craidd*'' yn y cyfnod ICDF a newid strwythuredig mewn pwyslais yn y blynyddoedd canlynol i '*Gyfoethogi Buddsoddiad*' er mwyn ehangu capasiti a gweithgarwch.

| *Buddsoddiad Craidd* | *Cyfoethogi Buddsoddiad* |
|---|---|
| Defnyddir hyn i sefydlogi costau craidd o fewn y gwasanaethau cefnogaeth ymchwil ac effaith, partneriaethau a phrojectau strategol, a chaiff costau Arloesi ac Ymgysylltu eu halinio ar draws y sefydliad (e.e. mentrau myfyrwyr a chenhadaeth ddinesig). Mae'r Grant Capasiti yn brimydd sy'n cael ei groesawu'n fawr ac sydd o gymorth mawr wrth drosglwyddo i Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru trwy ddarparu cefnogaeth graidd y mae mawr angen amdani mewn perthynas ag Arloesi ac Ymgysylltu. Bydd cefnogaeth *graidd* hefyd yn golygu y bydd angen alinio gweithgareddau gyda mesurau Arloesi ac Ymgysylltu cenedlaethol yn ffurfiol | Lluniwyd portffolio o fuddsoddi o'r newydd mewn staff ac adnoddau eraill i wella gweithgarwch sydd ynghlwm â'r Concordat Cyfnewid Gwybodaeth at ddibenion blaenoriaethau sefydliadol. Mae rolau o'r fath yn hanfodol os yw'r Brifysgol am gyfrannu at yr adferiad economaidd rhanbarthol y bydd ei angen yng ngogledd Cymru yn dilyn argyfwng Covid-19 ac wrth bontio i fyd ôl-Brexit. |

| **ICDF***<br>** Defnyddir elfen Grant Capasiti y dyraniad ICDF i roi sylw i bwyntiau bwled 1. a 2. isod (mewn llwyd). Mae'r adrannau isod yn rhoi manylion am sut y bydd yr hyn sy'n weddill o'r dyraniad ICDF yn cael ei ddefnyddio.* | Craidd | Cyfoethogi | Effaith |
|---|---|---|---|
| 1. Talu costau craidd y rolau Ymchwil ac Effaith yn y gwasanaethau cefnogaeth ymchwil ac effaith ac mewn partneriaethau a phrojectau strategol. | **X** | | |
| 2. Costau cymwys ac eithrio cyflogau Cyfnewid Gwybodaeth a Masnacheiddio (e.e. eiddo deallusol, hyfforddiant (Crwsibl Cymru), cynadleddau a digwyddiadau, tanysgrifiadau (Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru). | **X** | | Rhoi gwybodaeth a gwybodaeth ymarferol arbennig ar waith i wneud enillion masnachol |
| | | | |
| 3. Costau staff presennol sy'n gweithio mewn meysydd cysylltiedig allweddol yn Arloesi Pontio (h.y. Arloesi a Dylunio). | **X** | | Gwella Cysylltiadau Dinesig |
| 4. Cynnal parhad yn y cyllid ar gyfer cyflogau swyddi allweddol sy'n ymwneud â Bargen Twf y Gogledd a'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil a ariennir ar hyn o bryd drwy gynllun Cryfhau Sylfaen Ymchwil Cymru HEFCW. | **X** | | Manteisio ar fuddsoddiad cyfalaf strategol "ar sail lle" - "Codi rhanbarthau i lefel uwch" |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5. Buddsoddi mewn swyddi newydd allweddol sy'n gysylltiedig â chysylltiadau â busnesau gan ganolbwyntio ar fyfyrwyr (Swyddog Cyflogadwyedd ac Ymgysylltu â Busnesau, Prentisiaethau Gradd). | | X | Mynd i'r afael â Bylchau Gallu allweddol o ran darpariaeth a chefnogaeth |
| 6. Buddsoddi mewn swyddi newydd allweddol mewn cefnogaeth ymchwil ac effaith, ac mewn phartneriaethau a phrojectau strategol i gefnogi rhagor o ymgysylltu â busnes ar draws gogledd Cymru gyfan i hybu gweithgarwch y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth a llwyddiant wrth ddenu grantiau UKRI yn y Brifysgol. | | X | Mynd i'r afael â Bylchau Gallu allweddol o ran darpariaeth a chefnogaeth |
| 7. Buddsoddi mewn isadeiledd craidd i gefnogi darpariaeth y timau uchod yn ddigonol a mynd i'r afael â diffyg cydnabyddedig mewn adnoddau (h.y. contractau, ymgynghoriaeth, gweinyddiaeth ariannol a chostio projectau, nawdd a digwyddiadau). Cyfleoedd hyfforddi a rhwydweithio i staff academaidd. | | X | Mynd i'r afael â Bylchau Gallu allweddol o ran darpariaeth a chefnogaeth |
| 8. Costau cymwys ac eithrio cyflogau Cyfnewid Gwybodaeth a Masnacheiddio (e.e. eiddo deallusol, hyfforddiant (Crwsibl Cymru), cynadleddau a digwyddiadau, tanysgrifiadau (Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru). | | X | Rhoi gwybodaeth a gwybodaeth ymarferol arbennig ar waith i wneud enillion masnachol |
| **Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru - Grant Capasiti** | | | |
| 1. Talu costau craidd y rolau Ymchwil ac Effaith yn y gwasanaethau cefnogaeth ymchwil ac effaith ac mewn partneriaethau a phrojectau strategol. | X | | |
| 2. Costau cymwys ac eithrio cyflogau Cyfnewid Gwybodaeth a Masnacheiddio (e.e. eiddo deallusol, hyfforddiant, cynadleddau a digwyddiadau, tanysgrifiadau). (Sylfaen wybodaeth well) | X | | Sylfaen wybodaeth well |

**Adran B: Cynnwys penodol**

**3. Masnacheiddio / gweithgarwch cynhyrchu incwm**

*Nod CAYC yw darparu cymhelliant a gwobrwyo perfformiad, yn arbennig yn nhermau caffael incwm allanol. Amlinellwch gyfeiriad y daith, dros y tair blynedd nesaf, a fydd yn cefnogi'r gwaith i gyflawni'r dangosyddion perfformiad allweddol a amlinellir yn 3.1. Rhowch fanylion am feysydd allweddol o fuddsoddiad a thwf. Amlinellwch ble y caiff CAYC ei defnyddio i ychwanegu gwerth i weithgareddau presennol, neu sut y bydd yn cefnogi datblygiadau newydd. Ceir arweiniad pellach ar yr adran hon yng Nghylchlythyr W20/09HE. Dylech lunio eich ymateb yn nhermau ffyniant cymdeithasol ac economaidd ar gyfer Cymru. [Uchafswm o 1,000 o eiriau]*

Mae dull Bangor o ymwneud â masnacheiddio a gweithgarwch cynhyrchu incwm yn cael ei yrru gan y gofynion strategol canlynol:

| **Nodau ar gyfer Masnacheiddio a Gweithgarwch Cynhyrchu Incwm** | |
|---|---|
| **1.** | Ennill rhagor o incwm ymchwil ac arloesi trwy gystadleuaeth |
| **2.** | Gwireddu Agenda Arloesi ar Sail Lle (Cilgant Arloesi Gogledd Cymru) |
| **3.** | Gwella perfformiad sefydliadol o ran y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth |
| **4.** | Gwella ein hisadeiledd ymchwil ac arloesi |
| **5.** | Datblygu ac ehangu ein portffolio masnacheiddio |

Mae hyn yn gydnabyddiaeth bod angen dull gwahanol i ymgysylltu'n llwyddiannus â'r amgylchedd cyllido ôl-Brexit. Mae Prifysgol Bangor wedi elwa'n fawr o'r Cronfeydd Strwythurol, ond yn gyffredinol mae'r amrywiol ffynonellau cyllido yn anghytbwys, gyda gorddibyniaeth ar gyllid Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i gefnogi

gweithgarwch ymchwil ac arloesi, yn enwedig yn absenoldeb ffynonellau eraill o gefnogaeth arloesi ac ymgysylltu. Ochr yn ochr â hyn cydnabyddir bod y Brifysgol yn rhan o ddaearyddiaeth economaidd unigryw. Mae'r Archwiliadau Gwyddoniaeth ac Arloesi diweddar yn naearyddiaeth **'Bwa'r Gogledd Orllewin'** wedi ein harwain i ddatblygu achos cryf dros weithgarwch arloesi ar sail lle ar gyfer model **Cilgant Arloesi Gogledd Cymru.** Ein nod yw darparu Arweinyddiaeth Syniadaeth i'r rhanbarth trwy gydweithredu a chydweithio â phartneriaid rhanbarthol ym mhob sector. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd ag agenda rhanbartholi Llywodraeth Cymru sy'n gweld Gogledd Cymru fel rhanbarth genedlaethol. Rhagwelir amgylchedd cyllido wahanol iawn lle rhoddir pwys ar agenda o ail-gydbwyso a chodi lefel h.y. y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Felly, mae angen lleoli ein hunain fel Prifysgol Gogledd Cymru a darparu ymchwil ac arloesi hanfodol i fod yn gefn i ymdrechion ehangach i adfer yr economi. Mae buddsoddiadau presennol Sêr Cymru a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn cryfhau'r cyfraniad a wnawn i **Fargen Twf y Gogledd** gyda buddsoddiadau cyfalaf wedi'u cynllunio mewn Canolfannau Rhagoriaeth Ymchwil ac Effaith blaenllaw ym meysydd Ynni Carbon Isel, Prosesu Signalau Digidol a Biotechnoleg Amgylcheddol, ac mae hyn y darparu glasbrint y gellir adeiladu arno. Rydym yn ceisio cryfhau ymhellach ein dull o ymwneud â gwyddoniaeth fawr ar gyfer y rhanbarth trwy sefydlu **Ysgol Meddygaeth Gogledd Cymru,** i gefnogi twf gwyddorau bywyd yn y rhanbarth ac adeiladu ar ragoriaeth bresennol mewn Gwyddorau Iechyd a Lles[1]. Rydym yn ehangu ein cysylltiadau ar draws y rhanbarth, yn enwedig yng ngogledd ddwyrain Cymru, i ddyfnhau cysylltiadau â chwmnïau strategol bwysig yn yr ardal honno, yn ogystal â gwella ein cydweithrediad â phartneriaid rhanbarthol allweddol eraill megis Grŵp Llandrillo Menai, Coleg Cambria, Canolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch Cymru a Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam.

Drwy adeiladu ar ein portffolio helaeth o ymchwil gymhwysol (gyda chefnogaeth Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a Sêr Cymru), byddwn yn ceisio ymestyn ein gweithgarwch ymhellach mewn sectorau rhanbarthol pwysig megis Gwyddorau'r Amgylchedd, Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel, Uwch-ddeunyddiau, Bwyd a Thechnoleg Amaeth, Iechyd a Lles, Diwydiannau Diwylliannol a Chreadigol, a Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol. Bydd y profiad sydd gennym yn sgil **Cyfrif Cyflymu Effaith** y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol ac yn sgil cyllid cysylltiedig Hybu Busnes yn sicrhau bod dulliau arloesol yn cael eu prif-ffrydio i'n portffolio ymgysylltu estynedig.

Er mwyn mynd i'r afael ag anghenion uniongyrchol yr economi ar ôl COVID, byddwn yn parhau i ail-bwrpasu a gwella cefnogaeth Arloesi ac Ymgysylltu o fewn fframwaith a strwythur Ymchwil ac Effaith ehangach. Bydd hyn yn rhoi cyfle unigryw i integreiddio ein cefnogaeth arloesi ac ymgysylltu, ac ychwanegu ato, gan ganolbwyntio ar ddarpariaeth graidd y sefydliad sef ddarparu **Gwybodaeth** a **Thalent** i fusnes i gefnogi arloesedd a thwf. Wrth symud ymlaen, ein nod yw datblygu metrigau'r Arolwg Rhyngweithiad Addysg Uwch - Busnes a Chymuned sy'n rhan o'r mesurau arloesi ac ymgysylltu cenedlaethol, gyda buddsoddiadau a mesurau penodol. Byddwn yn cynyddu adnoddau mewn meysydd lle gwyddom fod newid sylweddol mewn perfformiad yn bosibl os gwneir darpariaeth ychwanegol addas i gynyddu capasiti, gallu ac arbenigedd. Byddwn hefyd yn adolygu ac yn nodi'r fframwaith gorau posibl ar gyfer cyflawni gwaith masnachol a chyfleoedd i gymryd rhan yn rhaglen ICURe.

Gan adeiladu ar broject **Canolfannau Cyfnewid Gwybodaeth Gogledd Cymru** a gefnogir gan HEFCW byddwn yn gweithio ochr yn ochr â sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch y rhanbarth, Canolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch Cymru, Llywodraeth Cymru, y Rhwydwaith Cyfnewid Gwybodaeth leol a diwydiannau gwybodaeth-ddwys i wella llif projectau a chynyddu cyfranogiad y rhanbarth mewn rhaglenni cyllido allweddol megis Innovate UK. Bydd **Canolfan Partneriaethau Cyfnewid Gwybodaeth Gogledd a Chanolbarth Cymru** yn

[1] Ym Mangor mae hyn yn cynnwys portffolio eang o ddisgyblaethau (gan gynnwys ymchwil feddygol a fferyllol, technolegau meddygol, gwyddorau chwaraeon, perfformiad elît, adsefydlu, gofal cymdeithasol a gwyddorau cymdeithas cymhwysol) ac mae hynny'n cynnig llwyfan i adeiladu ymhellach ar gydweithrediadau arloesol gyda'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

rhan o'r fenter hon. Byddwn yn ceisio cefnogaeth eraill i edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio M-SParc, Optic Llanelwy, Canolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch Cymru fel cadwyn gydlynol o **glystyrau arloesi a throsglwyddo gwybodaeth** sydd wedi eu gwasgaru’n ddaearyddol i gefnogi'r economi leol. Y nod fyddai gallu galw ar arbenigedd cynhenid y rhiant-sefydliad waeth beth yw'r lleoliad ffisegol.

Mae cynlluniau i ddatblygu ac integreiddio yr isadeiledd arloesi ac ymgysylltu pwysig a geir ar hyn o bryd ym Mhrifysgol Bangor megis **M-SParc, Arloesi Pontio** a'r **Ganolfan Biogyfansoddion**, yn ogystal â chyflawni project Campws Gwyddoniaeth ac Arloesi Deiniol, sef datblygiad ystadau sylweddol yng nghraidd y Brifysgol, gyda chyllid y Fargen Twf fel y prif gatalydd. Drwy grynhoi sawl canolfan ymchwil ac arloesi allweddol ynghyd â chefnogaeth ar eu cyfer mewn un lleoliad bydd y datblygiad hwn yn darparu mannau cyffredin ar gyfer arloesi a busnes i atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng rhagoriaeth ymchwil a masnacheiddio.

Wrth symud ymlaen bydd dull diwygiedig o fasnacheiddio yn darparu portffolio gwell ac amrywiol o weithgareddau a fydd yn cefnogi ein dyheadau ehangach ac a fydd yn briodol i faint a natur y sefydliad (gan fanteisio ar gryfderau masnacheiddio mewn gwyddorau cymdeithas yn ogystal â chyfleoedd mwy traddodiadol yn y pynciau STEM). Parheir i ffafrio trwyddedu a gweithio gydag eraill, megis buddsoddwyr, i rannu risg ac uchafu canlyniadau, yn ogystal â defnyddio'r rhaglenni a'r rhwydweithiau presennol (Rhwydweithiau **IP Agor**, **Alumni** ac **Angel**). Serch eu bod yn ddwys o ran adnoddau, cwmnïau deilliedig yw'r dull priodol i’w ddefnyddio wrth ymdrin â rhai technolegau er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau posibl. Rydym yn cydnabod bod angen dull tymor hwy i fod yn llwyddiannus yn y maes hwn, ac mae'r strategaeth dair blynedd hon yn rhoi cyfle i barhau i adeiladu ar ein perfformiad mewn modd cynaliadwy.

O fod wedi cael ein llywio gan adroddiad Grahame Guildford, ein nod yw adnewyddu'r broses sy'n cefnogi datblygu ac ecsbloetio ein heiddo deallusol a byddwn yn edrych ar arferion gorau cwmnïau, megis model 'Catalydd ar gyfer Twf' Thales, sy'n defnyddio cyfres o dair Lefel Parodrwydd sydd wedi'u diffinio: Technoleg, Busnes a Chwsmeriaid, gan weithredu fel porth i arwain y strategaeth fuddsoddi. Mae angen i'r llwybr ecsbloetio a ddefnyddiwn ar gyfer ein heiddo deallusol edrych y tu hwnt i ddulliau traddodiadol a chroesawu dulliau newydd o weithio megis dull Busnes Cychwynnol Darbodus, Ash Maurya, a ffurfio partneriaethau gydag amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys rhai y tu allan i'r sector cyhoeddus.

Cyflwynir crynodeb o’r blaenoriaethau strategol a’r galluogwyr ategol isod:

| **Nodau:** | **Galluogwyr:** |
|---|---|
| **1. Cynyddu incwm ymchwil ac arloesi a enillir trwy gystadleuaeth** | 1.1 Gwella llwyddiant wrth ddenu grantiau ymchwil ac arloesi gan UKRI<br>1.2 Cyfranogi mwy yn Innovate UK<br>1.3 Sefydlu Swyddfa Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth ar gyfer Gogledd a Chanolbarth Cymru - gwella lefelau perfformiad Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth<br>1.4 Manteisio mwy ar gyfleoedd cyllido presennol i ddarparu 'dull Grisiau Rhagoriaeth' |
| **2. Cilgant Arloesi Gogledd Cymru** | 2.1 Trwy Fargen Twf y Gogledd, sefydlu Canolfannau Rhagoriaeth Ymchwil ac Arloesi ym meysydd Ynni Carbon Isel, Signalau Digidol a Biotechnoleg Amgylcheddol<br>2.2 Nodi cyllid newydd yn hytrach na’r Cronfeydd Strwythurol gan gynnwys strategaeth ymgysylltu ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin<br>2.3 Manteisio ar ein sylfaen bresennol o brojectau WEFO wrth wneud ceisiadau yn y dyfodol i'r rhaglen 'Strength in Places'<br>2.4 Cefnogi datblygiadau arwyddocaol rhanbarthol megis Ysgol Meddygaeth Gogledd Cymru ac arloesi cysylltiedig ym maes gofal iechyd |

| | |
|---|---|
| **3. Cyfoethogi'r Concordat Cyfnewid Gwybodaeth** | 3.1 Cynnig darpariaeth greiddiol well i gyflogwyr o ran mynediad at Wybodaeth a Thalent<br>3.2 Datblygu ein rhyngweithio ym maes arloesi ac ymgysylltu ar draws ein sylfaen academaidd<br>3.3 Optimeiddio'r fframwaith cyflenwi ar gyfer gwaith masnachol<br>3.4 Cynyddu cefnogaeth o ran Cysylltiadau, Gweinyddiaeth a Marchnata<br>3.5 Cyfleoedd hyfforddi a rhwydweithio mewn perthynas â'r Concordat Cyfnewid Gwybodaeth i staff academaidd. |
| **4. Isadeiledd Ymchwil ac Arloesi** | 4.1 Buddsoddi mewn cyfleusterau Ymchwil ac Arloesi gan gynnwys M-SParc, Arloesi Pontio a'r Ganolfan Biogyfansoddion<br>4.2 Datblygu Canolfan Wyddoniaeth Newydd |
| **5. Portffolio Masnacheiddio** | 5.1 Adnewyddu'r Strategaeth Fasnacheiddio, yn unol ag adroddiad Grahame Guilford;<br>5.2 Datblygu cyfleoedd Trwyddedu<br>5.3 Cefnogaeth wedi'i thargedu ar gyfer cwmnïau deillio<br>5.4 Cyllid Masnacheiddio (gan gynnwys dichonoldeb technegol a masnachol a phrofi cysyniadau i ddatblygu syniadau cynnar ac adeiladu'r llif projectau ymhellach gyda chyllid had ar gyfer y cysyniadau mwyaf addawol) |

**3.1 Rhowch fanylion am ddangosyddion perfformiad allweddol strategol eich sefydliad ar gyfer masnacheiddio a gweithgarwch cynhyrchu incwm:**

Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu Mesurau Cenedlaethol Arloesi ac Ymgysylltu HEFCW fel rhan o gyfres newydd o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol sefydliadol. Hefyd wedi'u cyflwyno isod mae Dangosyddion Perfformiad Allweddol sefydliadol ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r mesurau Arloesi ac Ymgysylltu. Caiff lefel yr uchelgais o ran ein perfformiad sefydliadol ar draws yr mesurau Arloesi ac Ymgysylltu Cenedlaethol eu mynegi fel rhan o adolygiad blwyddyn gyntaf y strategaeth hon.

| Mesur Cenedlaethol Arloesi ac Ymgysylltu | Dangosyddion Perfformiad Allweddol Sefydliadol Cysylltiedig |
|---|---|
| **a) Incwm Ymchwil Cydweithredol** | • Cynnydd o flwyddyn i flwyddyn mewn adferiad ôl-COVID<br>• Lefelau uwch o incwm UKRI<br>• Cymryd rhan yn rhaglenni Innovate UK<br>• Nifer cynyddol o Bartneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth gyda tharged sefydliadol cychwynnol o 8-10 rhaglen |
| **b) Incwm Ymchwil y Contract** | • Cynnydd o flwyddyn i flwyddyn mewn adferiad ôl-COVID<br>• Cynnydd yn y niferoedd contractau diwydiannol<br>• Lefelau uwch o Ryngweithiadau â'r Sector Cyhoeddus a'r Trydydd Sector |
| **c) Incwm ymgynghoriaeth** | • Lefelau uwch o weithgaredd ar draws y Sefydliad |
| **d) Incwm o ddefnyddio Offer a Chyfleusterau** | • Cynnydd o flwyddyn i flwyddyn mewn adferiad ôl-COVID<br>• Rhagor o ddefnydd o'n cyfleusterau gan ddiwydiant<br>• Rhagor o ddefnydd gan sefydliadau anfasnachol |
| **g) Incwm adfywio** | • Nodi a chynyddu ffynonellau cyllid amgen |
| **h) Incwm eiddo deallusol** | • Parhau â chynnydd cynaliadwy o flwyddyn i flwyddyn |

| | |
|---|---|
| | • Rhagor o drwyddedu |
| **i) Nifer y cwmnïau deillio** | • Cynnal a datblygu'r portffolio presennol mewn modd cynaliadwy |
| | |
| **Rhwydwaith Arloesedd Cymru (WIN):** | Dangosyddion Perfformiad Allweddol Rhwydwaith Arloesedd Cymru: (fel y cytunwyd arnynt trwy sgyrsiau gydag Is-gangellorion, Dirprwy Is-gangellorion a HEFCW):<br>• Cynnydd sylweddol mewn incwm ymchwil ac arloesi i'r sector yng Nghymru o ganlyniad i geisiadau a gefnogir gan Rwydwaith Arloesedd Cymru. Bydd y Rhwydwaith yn anelu at sicrhau £30m ychwanegol i sefydliadau Cymru dros y cyfnod cychwynnol o dair blynedd.<br>• Er mwyn cyflawni hyn, fel un Dangosydd Perfformiad Allweddol, bydd y Rhwydwaith yn anelu at gefnogi nifer o fidiau dros y cyfnod o dair blynedd, sef gwerth o leiaf £30m.<br>• Yn olaf, rydym yn rhagweld, ar ôl dwy flynedd, ac ar ôl tair blynedd, y bydd y fenter yn cynhyrchu adroddiadau ar gyfer Bwrdd Rhwydwaith Arloesedd Cymru, mewn partneriaeth â sefydliadau sy'n cymryd rhan, gan amlinellu'r bidiau a ddatblygwyd gyda'r sector, gan gynnwys nifer y partneriaid ym mhob cais. Byddai'r adroddiadau hyn yn adlewyrchu'r cynnydd cyffredinol gan gynnwys meithrin perthynas ag UKRI, diwydiant a busnes. Gall yr adroddiadau hyn hefyd amlinellu perfformiad y prif ddangosyddion perfformiad allweddol ar lefel ranbarthol er mwyn ystyried sut mae manteision Rhwydwaith Arloesedd Cymru wedi cael eu teimlo ledled Cymru ac ymhlith y sefydliadau.<br>Mae hyn oll 'w gadarnhau, wrth i Rwydwaith Arloesedd Cymru gael ei sefydlu ymhellach. |

**5.2 Sut bydd eich dull strategol yn y maes hwn yn alinio ag Ymchwil ac Arloesi: Y Weledigaeth ar gyfer Cymru gan CCAUC? Dewiswch yr elfennau a gefnogir:**

☒ Rhagoriaeth
☒ Lle
☒ Arloesi
☒ Cydweithredu

Mae'r pedair colofn yn berthnasol yn yr adran hon. Prif ffocws ein strategaeth o ran Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru yw pwyslais ar le. Rydym wedi mabwysiadu'r matrics EPIC fel teclyn i asesu a ellir ystyried bod gweithgarwch yn cyfrannu at ddull arloesi ar sail lle. I wneud hynny'n llwyddiannus mae angen i'r pedair colofn fapio yn ei erbyn er mwyn cyrraedd y trothwy a chael eu blaenoriaethu i'w cynnwys yn y strategaeth hon.

**3.3 Sut mae eich uchelgeisiau strategol ar gyfer masnacheiddio a gweithgarwch cynhyrchu incwm yn cefnogi nodau, cerrig milltir ac uchelgeisiau'r weledigaeth?**

[Uchafswm o 250 o eiriau]

Mae ein huchelgeisiau strategol o ran gweithgareddau masnacheiddio ac incwm yn cyd-fynd yn llwyr â'r Weledigaeth. Blaenoriaeth allweddol i ni yw cynyddu lefelau incwm ymchwil ac arloesi a enillir trwy gystadleuaeth ac mae'r uchelgais hon yn cyd-fynd yn llwyr â nod, cerrig milltir ac uchelgeisiau'r Weledigaeth sy'n mynegi'r un nod ar gyfer y sector. Mae'r Weledigaeth yn rhagweld mai dyma fydd un o'r heriau allweddol y mae'r sector yn eu hwynebu yn yr amgylchedd cyllido ôl-Brexit. Mae hyn yn berthnasol i'r sector cyfan a

bydd Prifysgol Bangor yn sicrhau y codir proffil ei chyfraniadau at ymchwil ac arloesi y tu allan i Gymru a bod cyfleoedd yn cael eu nodi a'u dilyn fel mater o flaenoriaeth.

At hynny, mae ein huchelgeisiau ymchwil yn cyd-fynd ag uchelgeisiau'r Weledigaeth sy'n ceisio sicrhau bod Cymru yn cael ei chydnabod am ymchwil o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo gwybodaeth ac yn cynhyrchu syniadau sy'n arwain at gynhyrchion ac arloesedd y dyfodol. Ochr yn ochr â gweithredu dull mwy systematig o ecsbloetio'r holl lwybrau rhwng ymchwil a'r economi, rydym yn cydnabod y rôl sydd gennym o ran cyfrannu at bedair colofn Strategaeth Arloesi'r Deyrnas Unedig a blaenoriaethau Rhaglen Lywodraethol Llywodraeth Cymru. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid tebyg (Addysg Uwch, Addysg Bellach, Sefydliadau Ymchwil a Thechnoleg a'r llywodraeth) i ddarparu gwell eco-system arloesi ar gyfer y rhanbarth a chydweithredu'n eang â busnesau (mawr a bach), y sector cyhoeddus a mentrau cymdeithasol i ddarparu rhaglenni sy'n canolbwyntio ar arloesi a gwella perfformiad.

## 4. Twf busnes newydd a chefnogi sgiliau

*Amlinellwch y cymorth rydych yn bwriadu ei ddarparu ar gyfer busnesau newydd, sgil-fusnesau, a chyflawni targedau cynlluniau fel Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru. Rhowch wybodaeth am ble y bydd CAYC yn ychwanegu gwerth i weithgareddau presennol, a ble y mae'n eich galluogi i fuddsoddi mewn twf pellach. Ceir arweiniad pellach ar yr adran hon yng Nghylchlythyr W20/09HE.*
*Dylech lunio eich ymateb yn nhermau ffyniant cymdeithasol ac economaidd ar gyfer Cymru.* [Uchafswm o 1,000 o eiriau]

Mae dull Bangor o beri twf busnesau newydd a chefnogaeth sgiliau yn cael ei ysgogi gan y gofynion strategol canlynol:

| **Nodau o ran Twf Busnesau Newydd a Chefnogi Sgiliau** | |
|---|---|
| **6.** | Gwella lefelau Cyflogadwyedd Myfyrwyr ledled y Brifysgol |
| **7.** | Hyrwyddo entrepreneuriaeth ymhlith y myfyrwyr |
| **8.** | Cynyddu nifer y busnesau cychwynnol a gychwynnir gan raddedigion a'u hangori yn y rhanbarth fel rhan o eco-system Arloesi a Menter. |
| **9.** | Darpariaeth sgiliau arloesol ar gyfer yr economi ranbarthol |
| **10.** | Archwilio opsiynau ar gyfer disodli KESS 2 gan adeiladu ar gyfraniad sylweddol y rhaglen. |

**Menter**
Mae Prifysgol Bangor wedi nodi bod gwella lefelau cyflogadwyedd yn flaenoriaeth sefydliadol hanfodol ac mae wedi lansio rhaglen uchelgeisiol o weithgareddau fel rhan o Gynllun Gweithredu Sefydliadol[2] i ysgogi hyn. Gan adeiladu ar lwyddiant sefydliadol megis **Gwobr Cyflogadwyedd Bangor** byddwn yn paratoi ein graddedigion i addasu a sylwi ar gyfleoedd, eu gwerthuso a manteisio arnynt wrth iddynt ddod i'r amlwg. Rydym yn deall y cysylltiad rhwng Entrepreneuriaeth a gwneud ein myfyrwyr yn fwy cyflogadwy a byddwn yn alinio ein gweithgarwch Arloesi ac Ymgysylltu i gyfrannu at yr elfen bwysig hon yn sefydliadol. Rhan greiddiol o'n cynlluniau i weithio gyda chyflogwyr wrth symud ymlaen cynnig gwell darpariaeth sefydliadol i ddarparu mynediad at Wybodaeth a Thalent, gan gynhyrchu unigolion medrus a thalentog i sbarduno arloesedd yn eu

[2] Gan gynnwys ymrwymiad y bydd pob myfyriwr israddedig yn cael lleoliad gwaith gyda sefydliad allanol.

cwmnïau. Gan adeiladu ar systemau presennol y Brifysgol mae cynigion i sefydlu **Blwyddyn Ryngosod** yn cael eu datblygu. Bydd y Brifysgol yn adeiladu ar lwyddiannau nodedig yn y maes hwn megis y **Rhaglen Menter Trwy Ddylunio** gyda gwelliannau wedi'u cynllunio gan gynnwys cael busnesau cychwynnol myfyrwyr i ddatblygu cysyniadau llwyddiannus. Mae Parc Gwyddoniaeth y Brifysgol, **M-SParc** wedi dod â dimensiwn ychwanegol arwyddocaol i ddarpariaeth mentergarwch y sefydliad. Dyma gartref **Canolfan Fenter** y rhanbarth a gefnogir gan Lywodraeth Cymru ac sy'n gartref i sawl menter myfyrwyr a fydd yn cael eu datblygu. Yno hefyd mae cartref deorfa busnesau cychwynnol graddedigion y Brifysgol (sy'n cael ei ariannu'n rhannol gan Santander Universities) fel rhan o raglen ehangach **Cyflymydd Mentrau Myfyrwyr**. Mae'r rhaglen yn cynnwys llwybr Darganfod, Diffinio, Datblygu a Chyflwyno sy'n cysylltu gwahanol agweddau allweddol o'r daith o'r campws tuag at fasnacheiddio. Rydym yn bwriadu adeiladu ar lwyddiant y Parc Gwyddoniaeth i gefnogi'r ymgyrch i gynyddu lefelau cyflogadwyedd, cychwyn busnesau a masnacheiddio yn y Brifysgol.

Gan adeiladu ar gweithgareddau **Byddwch Fentrus** bydd y Brifysgol yn ymgysylltu â myfyrwyr a graddedigion i ddatblygu sgiliau mentergarwch a syniadau, i ddarparu cefnogaeth er mwyn magu hyder a gwybodaeth, i ddarparu cyfleoedd i rwydweithio a threialu a chefnogaeth ddwys i fusnesau cychwynnol. Bydd y Brifysgol hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid eraill yn y rhanbarth i sicrhau pecynnau cymorth priodol i gynorthwyo twf a goroesiad busnesau. Mae'r targedau sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd gan **Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru** yn cael eu diwallu a'u gwella a bydd gweithgareddau pwysig megis treialu masnach ac ymchwil marchnad yn cael eu hehangu. Byddwn hefyd yn cydweithredu â sefydliadau eraill yng Nghymru i adeiladu ar weithgareddau rhithiol llwyddiannus yr Wythnos Haf Cychwyn Busnes a gynhaliwyd yn ddiweddar i ennyn diddordeb, grymuso ac arfogi myfyrwyr a graddedigion. Mae Prifysgol Bangor yn aelod o EEUK (Enterprise Educators UK) a byddwn yn parhau i annog ein staff i ddatblygu eu sgiliau mentergarwch eu hunain ac i ymgorffori entrepreneuriaeth yn rhan o'u haddysgu a'u dysgu yn unol ag Addysg Menter ac Entrepreneuriaeth QAA (2018). Byddwn yn parhau i noddi myfyrwyr rhyngwladol trwy'r Fisa Cychwyn Busnes dwy flynedd a chynnig cefnogaeth iddynt cyn ac ar ôl dechrau eu busnesau. Annog rhagor o fentrau cymdeithasol i ddatblygu yn ogystal ag annog entrepreneuriaid Cymraeg eu iaith, yn ogystal â merched a pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

Mae Prifysgol Bangor yn hynod falch o fod wedi ymestyn, hyd 2023, ei haelodaeth o rwydwaith Prifysgolion Santander, sydd wedi darparu cefnogaeth amhrisiadwy i ni o ran gweithgareddau menter a chyflogadwyedd. Yn ystod yr Argyfwng COVID bu modd i ni gynnig **Lwfans Argyfwng Cefnogi Menter** ar gyfer busnesau newydd ein myfyrwyr a'n graddedigion gyda chyllid ychwanegol gan Santander. Mae record Bangor gyda'r **Rhaglen Cyflogadwyedd Busnesau Bach a Chanolig Prifysgolion Santander** yn un o'r goreuon yn y Rhwydwaith gyda chyfraddau boddhad o 100% gan gwmnïau lletyol ac un o'r cyfraddau uchaf o gyflogaeth wedi hynny gyda'r Busnesau Bach a Chanolig sy'n eu lletya. Mae bwriad i ddatblygu chwaer-raglen **Lleoliadau i Raddedigion** yn rhan o fargen Twf y Gogledd yn seiliedig ar raglen debyg a ddatblygwyd gan Ranbarth Dinas Caerdydd fel rhan o'r Fargen Ddinesig ac a ddarparwyd gan Brifysgol De Cymru. Ar ben hynny, mae ein hymwneud â **GO Wales** a Rhwydwaith **Santander Universities Employ Autism HE** yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i ehangu cyfranogiad a sicrhau bod ein holl fyfyrwyr yn barod ar gyfer byd gwaith.

Hefyd, mae'r Brifysgol yn y broses o ddod a chyfleusterau presennol **Arloesi Pontio,** gan gynnwys Fab Lab y Brifysgol a'r **Cwrs Dylunio Cynnyrch** ynghyd i greu **Canolfan Arloesi Dylunio** i fyfyrwyr a busnesau fedru cael mynediad atynt i ddatblygu a phrototeipio syniadau a bydd cysylltiad cryf gydag **M-SParc** o ran masnacheiddio. Ochr yn ochr â hyn mae cynlluniau tymor hwy i ddatblygu **Academi Mentrau Diwydiannol.** Bydd yr Academi yn cymryd Rhaglenni Gradd presennol lle mae project neu leoliad gwaith yn ffurfio rhan fawr o'r radd (megis dylunio cynnyrch) ac yn eu hintegreiddio yn ddarpariaeth well a mwy cyffrous i gyflogwyr er mwyn sicrhau newid sylweddol yn ein rhyngweithio â diwydiant.

**Sgiliau**

Mae'r Brifysgol yn ymwybodol o'r rôl bwysig y mae'n ei chwarae wrth ddarparu'r sgiliau a'r dalent i yrru'r economi ranbarthol yn ei blaen. Mae ein darpariaeth yn cefnogi ymdrechion i ddatblygu’r gweithlu trwy ein darpariaeth israddedig ac ôl-radd ac ymdrechion i uwchsgilio'r gweithlu presennol trwy ein rhaglenni DPP amrywiol a thrwy gymwysterau proffesiynol. Bydd hyn hyd yn oed yn bwysicach yn y cyfnod o adferiad ôl-COVID. Cyfraniad allweddol yn hyn o beth yw’r portffolio o **Brentisiaethau Gradd** sy'n cynnwys darpariaeth Ddigidol a Pheirianneg. Gan adeiladu ar ein perthynas strategol bresennol gyda'n partner cyflenwi yn y sector Addysg Bellach, Grŵp Llandrillo Menai, rydym wedi ymestyn ein darpariaeth o raglenni digidol i Goleg Cambria ar gyfer blwyddyn olaf arfaethedig y cynllun peilot, a hefyd y cyfnod estynedig sydd newydd ei gyhoeddi, i sicrhau bod gennym ddarpariaeth Prentisiaethau Gradd ar draws y rhanbarth. Yn benodol, rydym yn gweld darpariaeth ddigidol fel cyfraniad allweddol at ailadeiladu economi Gogledd Cymru yn dilyn COVID. Yn dilyn y cyfnod peilot, byddwn yn ceisio, ar y cyd â'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol, i ymestyn y ddarpariaeth o Brentisiaethau Gradd i sectorau rhanbarthol pwysig eraill megis Ynni a'r Amgylchedd, Ymyriadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Twristiaeth Antur a'r Diwydiannau Creadigol, yn ogystal ag ystyried prentisiaethau ar lefel gradd uwch. Bydd y profiad a fydd gennym o ddarparu **Prentisiaethau Gradd i Gwnstabliaid yr Heddlu** o fis Medi 2020 ymlaen yn llywio'r ehangu hwn.

Canlyniad uniongyrchol partneriaeth addysg bellach strategol y Brifysgol gyda Choleg Cambria yw’r potensial i gyflwyno arloesedd, yn enwedig ym meysydd dysgu gydol oes ac ailsgilio ar gyfer yr economi bresennol a’r economi newydd a chyfuno’r arloesedd hwnnw gyda chyflwyno sgiliau. Bydd ein gweledigaeth yn sefydlu math newydd o academi sgiliau technoleg wedi'i lleoli yng ngogledd ddwyrain Cymru, gan adeiladu ar gonglfeini angen diwydiannol, ymchwil technoleg gymhwysol ynghyd â hyfforddiant ystwyth a pharhaus. Bydd y **Ffatri Sgiliau** yn pontio'r bwlch rhwng addysg bellach ac addysg uwch ac yn cyflawni ei weledigaeth y tu allan i'r patrymau cyffredin o addysg a hyfforddiant sy'n seiliedig ar hyn o bryd ar oedran a chymwysterau addysgol traddodiadol. Bydd y Ffatri Sgiliau, sydd wedi'i ysgogi gan yr angen am weithlu STEM medrus iawn, â chyflog da, a rhoi sylw i anghenion yr economi leol a rhanbarthol yn y dyfodol ar ôl Covid-19, yn darparu mynediad at gyflogaeth mewn sectorau STEM ac yn darparu llwybrau newydd i yrfaoedd newydd.

Ar ddiwedd y trefniant ariannu presennol, rydym yn dymuno adeiladu ar ein portffolio o raglenni arweinyddiaeth a rheolaeth, sef **Arweinyddiaeth ION**, **Ugain 20** ac **Academi Busnes Gogledd Cymru** trwy wneud buddsoddiad ychwanegol yn y maes hwn i gefnogi **Datblygiad Proffesiynol Parhaus** a **dysgu anhraddodiadol** a darpariaeth integredig ar ei newydd wedd i entrepreneuriaid, busnesau bach a chanolig, sefydliadau mawr a mentrau cymdeithasol.

Mae Prifysgol Bangor wedi arwain ar raglen **Ysgoloriaethau Sgiliau’r Economi Gwybodaeth** sy’n rhaglen bwysig i’r sector, ac a gefnogir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn ei ffurf gyfredol ac mewn ffurfiau blaenorol. Mae arwyddocâd ei chyfraniad arwyddocaol yn dra hysbys ac yn cael cydnabyddiaeth eang. Un o flaenoriaethau’r sefydliad fydd cyfrannu gyda phartneriaid a rhanddeiliaid ledled Cymru at ddatblygu’r rhaglen o ddilyniant sy'n adeiladu ymhellach ar effaith y rhaglen KESS ac yn cynyddu ei heffaith yn 2023. Ochr yn ochr â'r ymdrechion hyn byddwn yn ceisio defnyddio cefnogaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru i ddatblygu portffolio o **Ddoethuriaethau â ffocws diwydiannol** a **Chymrodoriaethau** a fydd wedi eu hariannu’n rhannol i ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa gryfhau ein blaenoriaethau o ran arloesi ar sail lle.

| Nodau: | Galluogwyr: |
|---|---|
| **6. Gwella lefelau Cyflogadwyedd Myfyrwyr ledled y Brifysgol** | 6.1 Interniaethau, Lleoliadau, Projectau Myfyrwyr a Blwyddyn Ryngosod<br>6.2 Cynnig darpariaeth greiddiol well i gyflogwyr o ran mynediad at wybodaeth a thalent<br>6.3 Portffolio o gysylltiadau strategol gyda chyflogwyr allweddol<br>6.4 Target Connect<br>6.5 Menter trwy Ddylunio<br>6.6 M-SParc |
| **7. Hyrwyddo entrepreneuriaeth ymhlith y myfyrwyr** | 7.1 Gweithgarwch Byddwch Fentrus<br>7.2 Prifysgolion Santander<br>7.3 M-SParc<br>7.4 Gwreiddio entrepreneuriaeth yn y cwricwlwm fel rhan o raglen ehangach i gynyddu cyflogadwyedd |
| **8. Cynyddu nifer y busnesau cychwynnol a gychwynnir gan raddedigion a'u hangori yn y rhanbarth fel rhan o eco-system Arloesi** | 8.1 Man Deori M-Sparc<br>8.2 Llwybr Darganfod, Diffinio, Datblygu, Darparu (Cyflymydd Menter Santander)<br>8.3 Hwb Menter |
| **9. Darpariaeth sgiliau arloesol ar gyfer yr economi ranbarthol** | 9.1 Cynyddu ein darpariaeth o Brentisiaethau Gradd<br>9.2 Buddsoddiad yn ein Colegau academaidd i gefnogi Datblygiad Proffesiynol Parhaus a dysgu anhraddodiadol<br>9.3 Ffyrdd integredig newydd o weithio gydag Addysg Bellach<br>9.4 Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol |
| **10. Archwilio opsiynau ar gyfer disodli KESS 2 gan adeiladu ar gyfraniad sylweddol y rhaglen.** | 10.1 Rhaglen o ddilyniant cenedlaethol ar gyfer KESS 2<br>10.2 Portffolio o Ddoethuriaethau a Chymrodoriaethau â ffocws diwydiannol |
| | |

**4.1 Rhowch fanylion am ddangosyddion perfformiad allweddol strategol eich sefydliad ar gyfer twf busnes newydd a chefnogi sgiliau**

Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu Mesurau Cenedlaethol Arloesi ac Ymgysylltu HEFCW fel rhan o gyfres newydd o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol sefydliadol. Hefyd wedi'u cyflwyno isod mae Dangosyddion Perfformiad Allweddol sefydliadol ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r mesurau Arloesi ac Ymgysylltu. Caiff lefel yr uchelgais o ran ein perfformiad sefydliadol ar draws yr mesurau Arloesi ac Ymgysylltu Cenedlaethol eu mynegi fel rhan o adolygiad blwyddyn gyntaf y strategaeth hon.

| Mesur Cenedlaethol Arloesi ac Ymgysylltu | Dangosyddion Perfformiad Allweddol Sefydliadol Cysylltiedig |
|---|---|
| **e) Nifer y Diwrnodau DPP,** | • Cynnydd o flwyddyn i flwyddyn mewn adferiad ôl-COVID<br>• Nifer cynyddol o Brentisiaethau Gradd |
| **f) Incwm DPP,** | • Cynnydd o flwyddyn i flwyddyn mewn adferiad ôl-COVID |
| **j) Nifer y Busnesau Cychwynnol gan Raddedigion** | • Cynnydd o flwyddyn i flwyddyn mewn adferiad ôl-COVID;<br>• Rhagori ar dargedau Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru (nifer y staff sy'n hyrwyddwyr, busnesau cychwynnol, treialu masnach, atgyfeiriadau at raglenni cefnogi eraill) |

| | |
|---|---|
| | • Cyfradd cyflogadwyedd barhaus o raglen Cyflogadwyedd Busnesau Bach a Chanolig Santander (70+%). Defnyddio fel meincnod ar gyfer rhaglenni cysylltiedig eraill<br>• Gwell perfformiad o flwyddyn i flwyddyn yn yr arolwg Canlyniadau Graddedigion. |

**4.2 Sut bydd eich dull strategol yn y maes hwn yn alinio ag Ymchwil ac Arloesi: Y Weledigaeth ar gyfer Cymru gan CCAUC? Dewiswch yr elfennau a gefnogir:**

☒ Rhagoriaeth
☒ Lle
☒ Arloesi
☒ Cydweithredu

Yn yr adran hon credwn fod y pedair colofn yn berthnasol. Mae rhagoriaeth yn y cyd-destun hwn nid yn unig yn berthnasol i Ragoriaeth Ymchwil (sy'n arbennig o berthnasol ar gyfer nod 10) ond hefyd ar gyfer rhagoriaeth addysgu sy'n cael ei gydnabod trwy statws Aur y Brifysgol yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu.

Prif ffocws ein strategaeth o ran Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru yw pwyslais ar le. Rydym wedi mabwysiadu'r matrics EPIC fel teclyn i asesu a ellir ystyried bod gweithgarwch yn cyfrannu at ddull arloesi ar sail lle. I wneud hynny'n llwyddiannus, mae angen i'r pedair colofn fapio yn ei erbyn er mwyn cyrraedd y trothwy a chael eu blaenoriaethu i'w cynnwys yn y strategaeth hon.

**4.3 Sut mae eich uchelgeisiau strategol ar gyfer twf busnes newydd a sgiliau yn cefnogi nodau, cerrig milltir ac uchelgeisiau'r weledigaeth?**

[Uchafswm o 250 o eiriau]

Mae'r Weledigaeth yn rhoi sylw i rôl arloesi, menter, entrepreneuriaeth a datblygu sgiliau wrth drawsnewid cynhyrchedd Cymru. Rydym yn rhannu'r uchelgais y dylai Cymru gael ei chydnabod fel arweinydd ym maes arloesi, menter ac entrepreneuriaeth a datblygu sgiliau. Mae alinio hyn â dealltwriaeth ddofn o le yn golygu y gallwn ddatblygu meysydd o gryfder ac arbenigedd unigryw wrth angori datblygu sgiliau cysylltiedig a busnesau cychwynnol yn ein rhanbarth. Mae'r Brifysgol yn ceisio lle creiddiol iddi ei hun mewn eco-system arloesi ryng-gysylltiedig ar gyfer y rhanbarth. Mae'r themâu a'r ymyriadau allweddol a gynlluniwyd yn ceisio lliniaru'r rhwystrau rhag ecsbloetio gwybodaeth, sy'n arafu mabwysiadu technoleg newydd, gan yn hytrach, annog arloesi a menter. O ran sgiliau mae hyn yn golygu paratoi ein graddedigion yn well ar gyfer byd gwaith a'u gwneud yn fwy agored i'r posibilrwydd o sefydlu busnes cychwynnol. Mae hefyd yn golygu gweithio mewn partneriaethau agos gyda'n cydweithwyr ledled Gogledd Cymru mewn Addysg Bellach / Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig a chyflogwyr lleol a chenedlaethol i uwchsgilio ac ailsgilio'r rheini mewn cyflogaeth yn ogystal â'r rhai sy'n ddi-waith. Ein nod, mewn cydweithrediad a phartneriaid a rhanddeiliaid yw gwneud y rhanbarth yn fwy atyniadol i fuddsoddi ynddo a datblygu eco-system leol sy'n cefnogi datblygiad cwmnïau brodorol trwy gyfrwng busnesau cychwynnol ac arallgyfeirio gweithgarwch mewn mentrau presennol trwy ymuno a chadwyni cyflenwi newydd a sefydledig, a'u datblygu i wella gwytnwch y rhanbarth.

| 5. Cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â’r cyhoedd |
|---|
| *Amlinellwch sut bydd CAYC yn cefnogi gweithgarwch parhaus neu newydd ar draws eich cymunedau. Mae cenhadaeth ddinesig sy’n seiliedig ar le yn faes eang sy’n ymgorffori amrediad helaeth o weithgareddau gan gynnwys cymorth yn y gymuned i ddiwallu anghenion sgiliau diwydiant, partneriaethau rhwng addysg bellach ac addysg uwch o safbwynt sgiliau, arloesi ac ymgysylltu, ymgysylltu â’r cyhoedd drwy waith ymchwil, ac wynebu heriau cymdeithasol. Byddai cefnogaeth ar gyfer y gymuned ar safle prifysgol ar gyfer, er enghraifft, digwyddiadau, darlithoedd ac ati hefyd yn fodd o gefnogi cenhadaeth ddinesig. Ceir arweiniad pellach ar yr adran hon yng Nghylchlythyr W20/09HE.*<br>*Dylech lunio eich ymateb yn nhermau ffyniant cymdeithasol ac economaidd ar gyfer Cymru.* [Uchafswm o 1,000 o eiriau] |

Mae dull Bangor o ymwneud â chenhadaeth ddinesig ac ymwneud â'r cyhoedd yn cael ei yrru gan yr elfennau strategol bwysig canlynol:

| **Nodau Cenhadaeth Ddinesig ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd yn y strategaeth hon:** | |
|---|---|
| **11.** | Cefnogi cymunedau lleol i oresgyn heriau economaidd a chymdeithasol sy'n deillio o COVID-19 |
| **12.** | Cyfoethogi ffyniant dwyieithog, diwylliannol, iechyd, cymdeithasol ac economaidd ein rhanbarth |
| **13.** | Datblygu rhaglenni Estyn Allan Cymunedol ymhellach trwy fentrau blaenllaw |
| **14.** | Parhau i gael ein cydnabod fel Prifysgol Gynaliadwy |

Mae gan Brifysgol Bangor draddodiad hir o fod â chenhadaeth ddinesig ac o ymgysylltu â'r cyhoedd. Yng nghynllun strategol newydd y Brifysgol, *Strategaeth 2030,* effaith economaidd, cymdeithasol a dinesig yw un o’r pedair thema drawsnewidiol sy’n cynnal pedwar ysgogwr strategol y Brifysgol, sef ymchwil, dysgu trawsnewidiol, profiad myfyrwyr rhagorol, a’r Gymraeg a dwyieithrwydd. Trwy gynnwys cenhadaeth ddinesig ymhlith ein themâu trawsnewidiol, byddwn mewn sefyllfa well i ymgorffori ac integreiddio cenhadaeth ddinesig yn llawn fel agwedd greiddiol o’n gweithgarwch, gan symud i ffwrdd oddi wrth unrhyw ganfyddiadau hen ffasiwn bod cenhadaeth ddinesig yn ymgymeriad 'trydedd genhadaeth'. Mae ein strategaeth yn pwysleisio ein hymrwymiadau i:

- Ffyniant cymdeithasol ac economaidd y rhanbarth;
- Cefnogi busnesau’r rhanbarth a'r agenda sgiliau;
- Gweithio gyda phartneriaid i greu cymunedau cydlynol a gwydn;
- Sicrhau ein bod yn Brifysgol hygyrch ar gyfer y rhanbarth.

Mae'r dull hwn yn cael ei gynnal yn y weledigaeth sefydliadol newydd sy'n sail i'r strategaeth hon gan ganolbwyntio ar golofnau *Lle Arweiniol, Mentrau Cymdeithasol ac Arloesi a Dinasyddiaeth Weithredol* Themâu Cenhadaeth Ddinesig HEFCW; atgyfnerthu'r themâu Arloesi ac Ymgysylltu y soniwyd amdanynt mewn adrannau blaenorol (ymdrinnir â chysylltiadau ag Ysgolion mewn adrannau eraill yn y sefydliad).

Mae’r Brifysgol yn cymryd rhan lawn mewn gwaith partneriaethol gyda llywodraeth leol a rhanddeiliaid allanol eraill trwy amrywiol fyrddau, gan gynnwys Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Grŵp Partneriaeth Strategol Dinas Bangor. Mae argyfwng COVID-19 wedi tanlinellu pa mor bwysig yw grym cynnull y Brifysgol fel sefydliad angori. Bu ein parc gwyddoniaeth, **M-SParc,** yn arwain cymuned o wneuthurwyr lleol, myfyrwyr, busnesau ac unigolion i ddylunio, argraffu mewn 3D, a chydosod amddiffynwyr wyneb i'w dosbarthu am ddim i staff meddygol a gofalwyr. Mewn ymdrech wirioneddol gymunedol, daeth y rhwydwaith hwn ynghyd i gynhyrchu dros 6,000 o eitemau o gyfarpar diogelu personol.

Ychwanegwyd at yr ymdrech hon wrth i **Prifysgolion Santander** roi arian cyfatebol at arian y rhwydwaith a godwyd trwy dorf-gyllido gan ein galluogi i gynhyrchu mwy er mwyn sicrhau cyflenwad ar draws y rhanbarth.

Ers cael ei sefydlu, mae drysau **M-SParc** wedi bod ar agor i'r gymuned, gan alluogi cynulleidfaoedd newydd i ddysgu am waith y Brifysgol a darparu profiad gwaith ac ystod o ddigwyddiadau i fyfyrwyr, pobl ifanc a disgyblion ysgolion lleol, gan gynnwys clybiau codio, digwyddiad '*Team Drive'* ysgolion F1, a lansiad y project **Profi** i ysbrydoli disgyblion Blwyddyn 12 sydd mewn perygl o beidio â bod mewn gwaith, addysg na hyfforddiant i ystyried eu gyrfaoedd yn y dyfodol. Mae menter estyn allan M-SParc, '*Ar Daith',* wedi mynd â gwaith y Parc Gwyddoniaeth i gymunedau megis Bethesda a Bae Colwyn ac mae cynlluniau ar gyfer 'teithiau' pellach ledled y rhanbarth. Mae M-SParc yn arwain ar Wythnos Sgiliau Digidol, mewn partneriaeth â Technocamps a'r Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig, gan ddarparu gweithdai ac aseiniadau i helpu i gau'r bwlch sgiliau digidol, ac mae Academi M-SParc bellach wedi agor, gan ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau. Hefyd, mae lleoliadau gwaith ac interniaethau wedi'u trefnu gyda chwmnïau sy'n denantiaid gan arwain at gyflogaeth i raddedigion a chefnogi'r man deor i raddedigion a'r gefnogaeth ehangach sydd ar gael i fusnesau cychwynnol trwy'r Canolbwynt Menter.

Mae ymgysylltu â'r gymuned yn greiddiol i genhadaeth **Pontio**, ein Canolfan Celfyddydau ac Arloesi. Mae Pontio yn darparu cyrchfan broffesiynol o'r radd flaenaf i'r Brifysgol ac i'r gymuned leol, ac mae'n ceisio dyfnhau cyfraniad y Brifysgol at weithgareddau artistig, diwylliannol ac ymgysylltu, adfywio'r ddinas, a meithrin cyswllt rhwng cymunedau academaidd a chymunedau lleol. Mae project cyfranogi celfyddydau Pontio, **BLAS**, yn cynnig amrywiaeth o brofiadau celfyddydol i blant a phobl ifanc. Ers ei lansio yn 2013 mae BLAS wedi mynd o nerth i nerth gan roi ymarferwyr ysbrydoledig mewn cyswllt â chymunedau a phlant brwdfrydig Bangor.Yn 2021/22, bydd partneriaeth strategol newydd gyda Chymdeithas Gogledd Cymru Affrica, sydd wedi'i lleoli ar stryd fawr Bangor, ynghyd â Chwmni'r Fran Wen sy'n ail-leoli i'r ddinas a sefydliadau cymunedol eraill megis Gisda, Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd a Maes Ni. Mae'r gwaith cymunedol hefyd wedi'i gyfoethogi ymhellach gan broject **BRAMA,** a gefnogir gan HEFCW sy'n cyflwyno sgiliau syrcas/celfyddydau perfformio i bobl ifanc yn eu harddegau sydd wedi ymddieithrio ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau'r ysgol. Llwyddodd cynllun peilot llwyddiannus i ennill £100k o arian y Loteri Fawr er mwyn ei gynnal am gyfnod pellach o dair blynedd.

Bydd Celfyddydau Pontio yn cydweithio â Phrifysgol Abertawe a Phrifysgol Aberystwyth ar broject cenedlaethol i gynnwys y gymuned, sef **Cartref a Chynefin**, a fydd yn pontio holl amrywiaeth cymunedau, myfyrwyr, academyddion, ac artistiaid llawrydd.

Mae Pontio hefyd yn gartref i **Fab Lab** y Brifysgol a'r gymuned o wneuthurwyr gan ddarparu pont bwysig arall at y gymuned greadigol leol yn ehangach. Wrth symud ymlaen mae'r Brifysgol yn archwilio sut y gall seilio ei chenhadaeth ddiwylliannol a'i chenhadaeth ddinesig o amgylch traddodiadau cerddorol Cymru.

Fel rhan o'n hymateb ehangach i COVID-19 mae'r Brifysgol wedi adeiladu ar ei hymrwymiad cryf i'r Gymraeg. Gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, rhyddhawyd **Cysgliad,** pecyn meddalwedd gwirio sillafu a gwirio gramadeg Cymraeg Prifysgol Bangor i'w lawrlwytho am ddim i gefnogi disgyblion a myfyrwyr addysg cyfrwng Cymraeg, eu teuluoedd, sefydliadau bach a'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth weithio gartref yn ystod y pandemig. Cafodd ei ddatblygu gan Ganolfan Bedwyr ac mae'r fenter hon yn atgyfnerthu eu cyfraniad ehangach i'n Cenhadaeth Ddinesig gan gynnwys yr **Ap Geiriaduron** ar gyfer ffonau clyfar, sef un o'r darnau meddalwedd trwyddedig sy'n perfformio orau yn ôl arolwg blynyddol HE-BCI. Mae gan y rhaglenni poblogaidd **Cymraeg i Oedolion** ac **Ieithoedd i Bawb** y potensial i ehangu cyfranogiad trwy gyfoethogi digidol.

Mae gan y Brifysgol fentrau pwysig eraill ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd y mae am eu datblygu ymhellach. Mae **Gardd Fotaneg Treborth** yn cynnal rhaglen o gyfleoedd i estyn allan yn addysgol ac ymwneud â'r gymuned leol ac maent yn ystyried cyflwyno cais i Gronfa Treftadaeth y Loteri i ailddatblygu'r cyfleusterau i ymwelwyr. Mae'r Brifysgol yn ystyried sut y bydd yn darparu ei chyfres proffil uchel o **Ddarlithoedd Cyhoeddus** wrth symud ymlaen yn oes pellter cymdeithasol trwy gyflwyno agwedd o gyfranogi'n ddigidol. Yn gysylltiedig â hyn bydd pwyslais o'r newydd ar sicrhau fod y cyhoedd yn deall ein hymchwil trwy gynnal cyfres newydd o **TEDx.Talks** Mae **Casgliadau Arbennig** y Brifysgol yn yr un modd yn ceisio datblygu eu rhaglen ac ehangu eu cynulleidfa. Bydd y berthynas ag Amgueddfa Bangor, **Storiel** yn cael ei ehangu fel y bydd y cysylltiadau â'r **Ymddiriedolaeth Genedlaethol**, **Cadw, Oriel Mostyn**, a statws **Treftadaeth y Byd** a ddyfarnwyd yn ddiweddar i dirwedd llechi gogledd orllewin Cymru. Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant mentrau Arloesi ac Ymgysylltu ar gyfer Ysgolion megis **Technocamps**. Bydd y brifysgol yn gweithio gyda mentrau rhanbarthol sy'n canolbwyntio ar gael y cyhoedd i ddeall gwyddoniaeth ac mae aliniad cryf â'n cryfderau ymchwil megis **Sw Mynydd Cymru**, **Parc Geo Môn** a'r Project Daear arfaethedig yn Llanberis.

Mae gan Brifysgol Bangor draddodiad cryf o gynnal rhaglenni **gwirfoddoli i fyfyrwyr**. Cânt eu rhedeg gan Undeb y Myfyrwyr. Dyma un o'r cyfraniadau mwyaf effeithiol at y gymuned leol, a'r mwyaf gweladwy, ac mae hefyd yn fuddiol iawn i'r myfyrwyr sy'n cymryd rhan, yn enwedig o ran cyflogadwyedd. Mae Undeb y Myfyrwyr yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli i fyfyrwyr ar dros 50 o wahanol brojectau cymunedol. Mae gwirfoddolwyr yn cyfrannu cyfanswm o 600 o oriau gwirfoddoli bob wythnos, gan weithio mewn sawl maes allweddol, gan gynnwys projectau plant, chwaraeon, iechyd meddwl, yr amgylchedd, y gymuned, y campws, a henoed. Mae cefnogaeth gan Brifysgolion Santander wedi caniatáu ehangu ar y gweithgareddau hyn, sef rhywbeth y byddwn yn parhau i'w ddatblygu er mwyn cefnogi'r gwaith o ailadeiladu bywiogrwydd ein cymunedau yn dilyn COVID-19.

Rydym hefyd yn ceisio adeiladu ar lwyddiant wrth sefydlu **Mentrau Cymdeithasol** yn seiliedig ar eiddo deallusol y Brifysgol (neu drwyddedu eiddo deallusol) er budd y cyhoedd. Mae sefydlu **Elusen Rhwydwaith Ymwybyddiaeth Ofalgar** a thrwyddedu'r **Rhaglen Food Dude** i Bord Bia[3] yng Ngweriniaeth Iwerddon yn sylfeini i adeiladu arnynt. Byddwn yn manteisio ar ein hymwneud â mentrau o bwys mewn ymchwil cymdeithas sifil megis **WISERD** ac ar ein profiad o gyflawni **Cyfri Cyflymydd Effaith** yr ESRC i adeiladu cydweithrediadau ychwanegol i gyfoethogi ffyniant cymdeithasol ac economaidd y rhanbarth a'r genedl. Mae ein cyfraniadau polisi ym maes caethwasiaeth fodern a chaffael yn cyfrannu at wireddu dyheadau Gwaith Teg Llywodraeth Cymru.

Mae'r Brifysgol yn falch o'i statws fel y **'Prifysgol Gynaliadwy'.** Rydym yn frwd dros hyrwyddo diwylliant ac ysgolheictod o stiwardiaeth amgylcheddol, byw mewn cytgord, a gofalu am y byd mewn ffyrdd sy'n diwallu ein hanghenion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Byddwn, gyda'n hymchwil blaenllaw yn sylfaen i ni, yn cefnogi datblygiad Cymru fel gwlad ddwyieithog sy'n dysgu, lle ceir economi a sbardunir gan wybodaeth er budd y byd a chenedlaethau'r dyfodol.Mae'r Brifysgol wedi penodi Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol i arwain ar bob agwedd ar gynaliadwyedd o fewn y sefydliad, gan gynnwys hyrwyddo'r pum ffordd o weithio i gyflawni nodau llesiant Cymru a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Byddwn yn datblygu ein cwricwlwm i adlewyrchu ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang; hyrwyddo cynaliadwyedd mewn gweithgareddau arloesi ac ymgysylltu ac ethos 'Cymraeg i bawb' gan normaleiddio'r profiad o fyw mewn amgylchedd amlieithog

[3] The Irish Food Board

| Nodau: | Galluogwyr: |
|---|---|
| 11. **Cefnogi cymunedau lleol i oresgyn heriau economaidd a chymdeithasol sy'n deillio o COVID-19** | 11.1 Helpu i arwain ymateb rhanbarthol COVID trwy fod yn aelod o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (a fforymau rhanbarthol eraill)<br>11.2 Ailgyfeirio adnoddau presennol i'r ymateb ymchwil ac arloesi i COVID-19 a meithrin mentrau newydd<br>11.3 Hyrwyddo Dinasyddiaeth Weithredol a Chydlyniant Cymunedol trwy Wirfoddoli Myfyrwyr<br>11.4 Cyfranogi mwy yn Rhwydwaith Cenhadaeth Ddinesig Cymru<br>11.5 Hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg wrth weithio gartref ac addysgu yn ystod argyfwng Covid-19<br>11.6 Grŵp Partneriaethau Strategol Bangor a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus |
| 12. **Cyfoethogi ffyniant dwyieithog, diwylliannol, iechyd, cymdeithasol ac economaidd ein rhanbarth** | 12.1 Darparu cyfleoedd dysgu cymunedol<br>12.2 Manteisio ar ymchwil Cymdeithas Ddinesig mewn partneriaeth<br>12.3 Cefnogi'r gwaith o greu Mentrau Cymdeithasol ychwanegol yn seiliedig ar eiddo deallusol Prifysgol Bangor<br>12.4 Cydweithredu ar ddealltwriaeth gyhoeddus ranbarthol o brojectau gwyddoniaeth sy'n cyd-fynd â chryfderau ymchwil cydnabyddedig (e.e. Sw Mynydd Cymru, Parc Geo Môn, Project y Ddaear) |
| 13. **Datblygu rhaglenni Estyn Allan Cymunedol ymhellach trwy fentrau allweddol** | 13.1 Pontio, M-Sparc a Gardd Fotaneg Treborth<br>13.2 Cyfres Darlithoedd Cyhoeddus<br>13.3 Casgliadau Arbennig<br>13.4 Mentrau Arloesi ac Ymgysylltu sy'n gysylltiedig ag Ysgolion (e.e. Technocamps) |
| 14. **Cydnabyddiaeth fel Prifysgol Gynaliadwy** | 14.1 Strategaeth Cynaliadwyedd<br>14.2 Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol (Cynaliadwyedd) |
| | |

**5.1 Rhowch fanylion am ddangosyddion perfformiad allweddol strategol eich sefydliad ar gyfer cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd**

Mae'r Brifysgol yn monitro ei pherfformiad blynyddol o ran mesurau allweddol Tabl 5 arolwg HE-BCI ac yn pryderu y bydd COVID -19 yn parhau i effeithio ar berfformiad yn y maes hwn, yn enwedig y gweithgareddau hynny sy'n mesur 'mynychwyr' o blith y cyhoedd.

Yn ddiweddar, mae'r Brifysgol wedi penodi Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol (Cenhadaeth Ddinesig) a bydd yn ychwanegu'n sylweddol at gapasiti trwy benodi 2 aelod o staff ychwanegol cyfwerth ag amser llawn i ddarparu cefnogaeth benodol ar gyfer amcanion cenhadaeth ddinesig y Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn paratoi strategaeth cenhadaeth ddinesig newydd, a fydd yn cael ei lansio yn gynnar yn 2022. Byddwn yn adolygu ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol sefydliadol fel rhan o'r gwaith o ddatblygu strategaeth cenhadaeth ddinesig.

| **Mesurau Tabl 5 HE-BCI** (niferoedd mynychwyr) | **Dangosyddion Perfformiad Allweddol Sefydliadol Cysylltiedig** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **a) Darlith Gyhoeddus** | Cynnal ein safle ymhlith yr 20 uchaf ym metrig prifysgolion rhyngwladol UI Green Metric |
| **b) Celfyddydau Perfformio** | Ehangu'r portffolio presennol (3) o Fentrau Cymdeithasol (sy'n cael eu creu o'r newydd neu drwy drwyddedu eiddo deallusol i fentrau cymdeithasol presennol) |
| **c) Arddangosfeydd** | Gwella gan 10% ar Lawrlwythiadau Trwyddedau Meddalwedd |
| **d) Addysg trwy Amgueddfeydd** | Cyfrannu at ddangosyddion Economaidd Rhanbarthol: Lefelau Gwerth Ychwanegol Gros, creu swyddi, ac ati. |
| **e) Arall:** roedd digwyddiadau nad ydynt yn ffitio i'r penawdau uchod, yn cynnwys:<br>○ Digwyddiadau STEM neu ddigwyddiadau mewn ysgolion<br>○ Digwyddiadau cymunedol<br>○ Ymgysylltu â'r cyfryngau, e.e. cyfweliadau radio neu deledu gan staff | |

**5.2 Sut bydd eich dull strategol yn y maes hwn yn alinio ag Ymchwil ac Arloesi: Y Weledigaeth ar gyfer Cymru gan CCAUC? Dewiswch yr elfennau a gefnogir:**

☒ Rhagoriaeth
☒ Lle
☒ Arloesi
☒ Cydweithredu

Mae'r pedair colofn yn berthnasol yn yr adran hon. Un prif ffocws yn ein strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru yw'r pwyslais ar le ac mae hyn yn gyson â'r cyd-destun o ran Cenhadaeth Ddinesig ac Ymwneud â'r Gymuned. Mae rhagoriaeth yma yn cynnwys Ymchwil ac Addysgu sy'n cyfrannu at lawer o'n gweithgareddau cenhadaeth ddinesig. Rydym wedi mabwysiadu'r matrics EPIC fel teclyn i asesu a ellir ystyried bod gweithgarwch yn cyfrannu at ddull arloesi ar sail lle. I wneud hynny'n llwyddiannus mae angen i'r pedair colofn fapio er mwyn cyrraedd y trothwy a chael eu blaenoriaethu i'w cynnwys yn y strategaeth hon.

**5.3 Sut mae eich uchelgeisiau strategol ar gyfer cenhadaeth ddinesig ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn cefnogi nodau, cerrig milltir ac uchelgeisiau'r weledigaeth?**

[Uchafswm o 250 o eiriau]

Mae'r Weledigaeth yn hyrwyddo sefydliadau a all fynegi'n glir eu rôl o ran cenhadaeth ddinesig ac ymwneud â'r gymuned. Chwaraewyr byd-eang sydd, yn eu hardal, yn cyfrannu at les cymdeithasol ac economaidd eu cymuned. Daeth pwysigrwydd y cyfraniad hwn yn amlwg yn sgil COVID -19. Mae'r Weledigaeth yn dweud fod angen i brifysgolion fynegi'n glir eu rôl o ran cenhadaeth ddinesig ac ymwneud â'r gymuned. Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw hyn ac yn ceisio, trwy ein strategaeth, adeiladu ar y cyfraniad sylweddol yr ydym eisoes yn ei wneud.

Yn dilyn penodi Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol dros Genhadaeth Ddinesig a dau swyddog cenhadaeth ddinesig i weithio yn y gwasanaethau proffesiynol, bydd Prifysgol Bangor wedi cynyddu'n sylweddol lefel yr adnoddau i gefnogi gweithgarwch cenhadaeth ddinesig. Mae'r Brifysgol yn aelod o rwydwaith Cenhadaeth

Ddinesig Cymru ac mae wedi ymrwymo i nodau craidd Fframwaith Cenhadaeth Ddinesig (Cymru). Mae'r Brifysgol yn datblygu Strategaeth Cenhadaeth Ddinesig a fydd yn pwysleisio'r disgwyliadau trawsbynciol ac integredig a amlinellir yng nghynllun strategol newydd y Brifysgol. Bydd y strategaeth newydd yn pwysleisio pa mor bwysig yw'r ysgogwyr canlynol:

- Yr angen i ymateb i 'Heriau Mawr' sy'n wynebu cymdeithasau a chefnogi cyfiawnder cymdeithasol a llwyddiant economaidd er mwyn galluogi cymunedau cynaliadwy.
- Y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil gyda'i bwyslais ar effaith ehangach ymchwil ar gymdeithas
- Yr anogaeth i addysg uwch ddod yn fwy ymatebol i gyflogwyr trwy ddatblygu sgiliau lefel uwch y gweithlu a gwella cyflogadwyedd graddedigion ac ôl-raddedigion;
- Pwysigrwydd ymgysylltu â grwpiau a sefydliadau cymunedol ar draws gogledd Cymru;
- Arddangos gwerth ychwanegol prifysgolion i'r economi a'r gymdeithas;
- Y cyfle i bob myfyriwr ddatblygu ei sgiliau cyflogadwyedd;
- Rôl y sefydliad wrth gyfrannu at agendâu iechyd a lles rhanbarthol a chenedlaethol;
- Pwysleisio disgwyliadau o ran y gadwyn gyflenwi leol yn ein strategaethau caffael;
- Pwysigrwydd ymwneud ag Ysgolion;
- Deall effaith y dirwasgiad, mesurau cyni, Brexit (a COVID-19 bellach) ar y sector cymunedol a'r sector gwirfoddol;

**Adran C: Alinio â pholisi a blaenoriaethau**

**6. Polisi Cymru a'r DU**

*Disgrifiwch sut mae eich strategaeth fel rhan o Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru yn alinio â pholisïau sy'n seiliedig ar le, yn rhanbarthol, yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig, megis, er enghraifft, bargeinion twf dinas-ranbarth lleol / rhanbarthol; Ffyniant i Bawb: cynllun gweithredu economaidd Llywodraeth Cymru; Strategaeth Ddiwydiannol y Deyrnas Unedig; Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus; Sefydliad Prifysgolion Dinesig UPP; Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid; Gwyddoniaeth i Gymru; Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol ac ati.*
[Uchafswm o 500 o eiriau]

Mae nifer o bolisïau a strategaethau sydd wedi llywio llawer ar ddatblygiad y ddogfen hon. Gyda'i gilydd, mae gan bob un ohonynt ymdeimlad cryf o le ac ymrwymiad sylfaenol i botensial trawsnewidiol arloesi ar sail lle ac mae hynny'n treiddio trwy'r strategaeth hon. Rydym o'r farn mai dyna'r llinyn euraidd sy'n darparu'r cyd-destun strategol wrth gyflwyno ein cynigion. Yn benodol, mae'r canlynol wedi siapio ein ffordd o feddwl:

Rydym yn cydnabod ein rôl o ran cyfrannu at bedair colofn Strategaeth Arloesedd y Deyrnas Unedig a blaenoriaethau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, gan adeiladu ar themâu **Strategaeth Ddiwydiannol** Llywodraeth y Deyrnas Unedig lle ceir targed **o 2.4%** o wariant CMC ar Ymchwil a Datblygu erbyn 2027. Mae'r weledigaeth a gyflwynir yn cynnwys:

- economi fwyaf arloesol y byd
- swyddi da a gwella gallu pawb i wneud gwell bywoliaeth
- uwchraddiad mawr i isadeiledd y Deyrnas Unedig
- y lle gorau i ddechrau a thyfu busnes

- cymunedau llewyrchus ledled y Deyrnas Unedig

Cefnogir yr elfennau hyn gan 5 sylfaen cynhyrchedd: Syniadau, Pobl, Isadeiledd, Yr Amgylchedd Busnes, Lleoedd sy'n cyd-fynd â’r Heriau Mawr. Rydym hefyd yn nodi ei hymrwymiad i **Fargen Twf y Gogledd** ac yn cydnabod pwysigrwydd ynni niwclear i'r rhanbarth.

**Ffyniant i Bawb**: cynllun gweithredu economaidd, Llywodraeth Cymru sy’n amlinellu gweledigaeth ar gyfer twf cynhwysol wedi'i adeiladu ar ddiwydiannau’r dyfodol ac ar ranbarthau cynhyrchiol. Mae'r **Contract Economaidd** a’r **Galwadau i Weithredu** cysylltiedig ynghyd a’r **Sectorau Thematig Cenedlaethol** wedi dylanwadu ar ddatblygiad ein cynnig. At hynny, mae’r ymrwymiad cryf i Ddatblygu Economi’r Rhanbarth, Datgarboneiddio a chydweithio yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn golygu bod rôl amlwg i'r Brifysgol o ran cyflawni'r cynllun gweithredu yn llwyddiannus.

Cyhoeddwyd **Gweledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru** gan **F**wrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru er mwyn ceisio sicrhau trawsnewidiad economaidd yn y rhanbarth. Yn greiddiol i’r ddogfen honno mae **Bargen Twf y Gogledd** (ymrwymiad gwerth £240 miliwn gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig) ac mae’n rhoi pwyslais ar Dwf Cynhwysol a chynnydd o 8% mewn Gwerth Ychwanegol Gros a fydd yn arwain at 4,363 o swyddi newydd a buddsoddiad uniongyrchol o £936m. Mae'n rhagweld:

- Gogledd Cymru Flaengar -gyda ffocws ar arloesedd mewn sectorau economaidd gwerth uchel i symud perfformiad economaidd yn ei flaen… ..“Yr uchelgais yw bod y rhanbarth yn gosod ei hun fel un o leoliadau mwyaf blaenllaw'r Deyrnas Unedig o ran cynhyrchu ynni a gweithgynhyrchu uwch - yn ogystal â bod yn ganolbwynt i arbenigedd mewn arloesi a thechnoleg… ... ”
- Gogledd Cymru Wydn - gyda ffocws ar ddal gafael yn ein pobl ifanc, cynyddu lefelau cyflogaeth a sgiliau er mwyn cyflawni twf cynhwysol
- Gogledd Cymru Gysylltiedig - gyda ffocws ar wella isadeiledd trafnidiaeth ac isadeiledd digidol er mwyn gwella cysylltedd strategol i'r rhanbarth ac o'i fewn

Mae gan Brifysgol Bangor dri phroject blaenllaw sy'n allweddol i gyflawni'r uchelgais hon

Mae canfyddiadau'r **Archwiliadau Gwyddoniaeth ac Arloesi** a gynhaliwyd yn ddiweddar wedi dylanwadu'n fawr ar ein syniadaeth, yn enwedig o ran y ddaearyddiaeth economaidd lle gallai ein hasedau Gwyddoniaeth ac Arloesi gael effaith drawsnewidiol sylweddol ar y rhanbarth.

- Bwa Niwclear y Gogledd Orllewin
- Bwa Arfordirol y Gogledd Orllewin ar gyfer Twf Cynaliadwy a Glân
- Crwsibl De Cymru

Yn ogystal, yn ein hymateb diweddar i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddi Rhanbarthol, pwysleisiodd y Brifysgol y pwyntiau a ganlyn:

- Croesawu’r symudiad tuag at ddull mwy rhanbarthol, gan nodi’r cyfle unigryw y mae gweithio mewn partneriaeth ranbarthol yn ei gynnig inni.
- Pwysleisio bod angen dadlau’r achos dros ymchwil ac arloesi yn fwy eglur, o gofio mai’r Cronfeydd Strwythurol oedd yn darparu 79% o gyfanswm y cyllid ar gyfer ymchwil ac arloesi yng Nghymru yn ystod rhaglen 2014-2020.

- Cytuno â'r angen am weithio'n fwy cydgysylltiedig, ar sail lle, yn y rhanbarth - wrth bwysleisio pa mor bwysig yw cynyddu, yn hytrach na lleihau gweithio trawsffiniol a thrawswladol.
- Croesawu'r pedair blaenoriaeth strategol a amlinellol ar gyfer buddsoddi ond dadlau bod ymchwil ac arloesi a rôl addysg uwch yn hanfodol wrth gyflawni'r rhain.
- Ein hymrwymiad i themâu cydraddoldeb, datblygu cynaliadwy, prif-ffrydio ar sail rhyw a'r iaith Gymraeg.

Mae **Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid** Llywodraeth Cymru sy'n cyd-fynd ag egwyddorion menter **Creu Sbarc** wedi bod yn ganolog i ddatblygiad ein darpariaeth ein hunain o ran Menter ac Entrepreneuriaeth. Rydym yn llwyr gymeradwyo'r uchelgais o greu eco-system Entrepreneuraidd fwy gweladwy, syml a chysylltiedig yng Nghymru ac rydym wrthi'n chwarae ein rhan wrth gyflawni hynny.

Cafodd **Strategaeth Cysylltiadau Dinesig** Prifysgol Bangor, a ddefnyddiwyd i lywio datblygiad elfen Cenhadaeth Ddinesig y strategaeth hon, ei datblygu yn defnyddio meincnodau cydnabyddedig y sector a'r teclynnau sydd ar gael trwy'r National Coordination Centre for Public Engagement.

## 7. Bodloni gofynion Concordat Cyfnewid Gwybodaeth y DU

*Rhaid i sefydliadau yng Nghymru ddangos ymrwymiad ac aliniad ag egwyddorion Concordat Cyfnewid Gwybodaeth y DU drwy eu strategaethau CAYC. Bydd cam datblygu'n cael ei gynnal yn ystod 2020-21 er mwyn gweithredu model ar gyfer Cymru.*

Ar gyfer y cam cychwynnol hwn, rydym yn gofyn i sefydliadau gadarnhau eu bod yn ymwybodol, drwy eu strategaethau, o egwyddorion y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth a amlinellwyd fel rhan o'r *ymgynghoriad* cychwynnol, a'u bod yn ymrwymedig i alinio â'r egwyddorion drwy fodel Cymru ar gyfer ymgysylltu. *Gellir cyflwyno strategaethau CAYC diwygiedig yn flynyddol fel rhan o'r weithdrefn fonitro, a chaiff y broses hon ei defnyddio i ddangos ymrwymiad llwyr i'r Concordat Cyfnewid Gwybodaeth yn dilyn y flwyddyn ddatblygu.*

[Uchafswm o 500 o eiriau]

Mae Prifysgol Bangor yn cefnogi'n weithredol y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth ac mae hunanwerthusiad yn erbyn wyth egwyddor arweiniol y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth a dadansoddiad bylchau wedi cael eu cynnal. Mae canlyniad yr adolygiad hwn a'r camau gweithredu sydd wedi eu nodi fel blaenoriaeth wedi'u hatodi fel atodiad i'r strategaeth hon, a byddant yn cael eu hadolygu'n flynyddol fel rhan o brosesau Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru.

## 8. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Rhowch wybodaeth benodol am sut bydd y strategaeth CAYC yn cefnogi'r saith nod, a'r pum ffordd o weithio a geir yn *Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015*;
[Uchafswm o 250 o eiriau]

Mae Bangor yn cefnogi'r **UN** egwyddor datblygu cynaliadwy (felly bydd gweithgareddau sefydliadol yn dangos sut maent yn diwallu anghenion y genhedlaeth bresennol heb gyfaddawdu

ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain). I gyflawni hyn, bydd ein gweithgareddau a'n cynllunio yn cael eu mesur yn erbyn y **BEDAIR** colofn, dan arweiniad y **PUMP** ffordd o weithio, gyda'r **SAITH** nod llesiant yn dargedau i ni:

Mae'r strategaeth hon yn parchu'r **BEDAIR** colofn - economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru 'Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru' yn nodi pedwar maes blaenoriaeth - a chefnogir y rhain yn ymateb Bangor, gweler isod gydag enghreifftiau (nid yn gynhwysfawr):

1. **Busnesau cynhyrchiol a chystadleuol** (**Economi**). Er enghraifft:
    a. Rhaglen Cydweithredu ac Arloesi at Adferiad y Brifysgol.
    b. Datblygu isadeiledd Arloesi ac Ymgysylltu allweddol ymhellach megis M-SParc, Arloesi Pontio a'r Ganolfan Biogyfansoddion
    c. Cefnogaeth trwy raglenni Cyfnewid Gwybodaeth megis KESS o hyn ymlaen, cefnogaeth gan Santander i fusnesau bach a chanolig ac ati.
2. **Lleihau'r ffactorau sy'n arwain at anghydraddoldeb incwm** (**Cymdeithas**):
    a. Cefnogaeth sgiliau trwy bartneriaid ein portffolio o Brentisiaethau Gradd ym maes Addysg Bellach.
    b. Datblygu Estyn Allan Cymunedol trwy fentrau allweddol megis Celfyddydau Pontio, MSPARC, gweithgareddau mewn ysgolion ac ati;
    c. Mentrau ehangu mynediad gan gynnwys cefnogaeth Prifysgolion Santander.
3. **Cefnogi'r trawsnewidiad i economi di-garbon** (**Amgylchedd**):
    a. Ymrwymiad fel sefydliad i'r safonau uchaf o berfformiad amgylcheddol (ISO14001)
    b. Cefnogi ymchwil cydweithredol mewn parthau Carbon Isel
    c. Cefnogaeth trwy Fargen Twf y Gogledd i'r Ganolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel sydd wedi'i lleoli yn MSPARC ac ym Mangor. / Cilgant Arloesi Gogledd Cymru
4. **Cymunedau iachach, tecach a mwy cynaliadwy** (**cymdeithas / diwylliant**):
    a. Hyrwyddo Dinasyddiaeth Weithredol a chydlyniant Cymunedol trwy gynlluniau gwirfoddoli myfyrwyr ac ehangu mynediad trwy Brifysgolion Santander
    b. Sefydlu Elusen Rhwydwaith Ymwybyddiaeth Ofalgar a thrwyddedu'r rhaglen Food Dude
    c. Cefnogaeth i ddysgu cyfrwng Cymraeg yn defnyddio offer Cysgliad trwy Ganolfan Bedwyr.

## 9. Effaith ar y Gymraeg

*Amlinellwch yr effaith gadarnhaol y caiff buddsoddiad CAYC ar gyfleoedd i ddefnyddio a chefnogi'r Gymraeg. Lle bo'n briodol, efallai y byddwch am gyfeirio at y themâu yng nghynllun gweithredu Cymraeg 2050.*
[Uchafswm o 250 o eiriau]

Mae Prifysgol Bangor yn cofleidio'r weledigaeth a gyflwynir yn ***Cymraeg 2050*** yn llwyr ac wedi ymrwymo i berchnogi'r her. Mae ein strategaeth Gymraeg ein hunain '**Bangor 2050'** yn darparu cynllun ar gyfer sut y bydd y sefydliad yn cyfrannu at y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae cyd-destun sefydliadol unigryw Bangor fel y prif ddarparwr Addysg Uwch Gymraeg yn y byd a'r gweithlu mwyaf dwyieithog yn y Deyrnas Unedig yn golygu y gall wneud cyfraniad sylweddol. Ar ben hynny, mewn oes lle mae'n rhaid i holl brifysgolion Cymru gydymffurfio â

safonau'r Gymraeg, mae polisïau mewnol Prifysgol Bangor yn gosod y bar yn uchel ac felly'n arwain yn genedlaethol o ran y Gymraeg yn y sector Addysg Uwch. Mae Lab Cynaliadwyedd Prifysgol Bangor yn sicrhau ein bod yn fframio ein gwaith yn nhermau **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**, ac mae gan y Gymraeg le canolog yn hynny. Yn y cyd-destun Arloesi ac Ymgysylltu mae'r datblygiadau canlynol yn berthnasol i'r dyheadau hynny:

- Asedau technolegol megis offer gwirio gramadeg ac offer cyfieithu a gydnabyddir yn fyd-eang a meddalwedd adnabod lleferydd. Cefnogi'r diwydiant cyfieithu trwy Bartneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth a rhaglenni SMART.
- Sefydlu Ysgol Meddygaeth yng Ngogledd Cymru gyda ffocws ar addysg feddygol cyfrwng Cymraeg.
- Cefnogi gweithgareddau diwylliannol; o ysgrifennu creadigol i ddarlithoedd cyhoeddus i gefnogaeth ar gyfer datblygu celfyddydau perfformio arloesol Cymraeg trwy ganolfan Pontio
- Darpariaeth Cymraeg i Oedolion sy'n cael ei chyflwyno i HE-BCI o dan y metrigau DPP.
- Portffolio helaeth o ymchwil ym meysydd hanes, llenyddiaeth, diwylliant, cymdeithaseg, y gyfraith, busnes, niwroseicoleg dwyieithrwydd, technoleg lleferydd ac iaith, gofal iechyd, a llawer mwy.
- Mentrau estyn allan cymunedol.
- Ethos 'Mae'r Gymraeg i bawb' a normaleiddio'r profiad o fyw mewn amgylchedd amlieithog.
- Fel rhan o strategaeth Bangor 2050, sefydlu Uned Ymchwil Fasnachol / Ymgynghoriaeth Iaith newydd (CYMAR).
- Cefnogaeth i entrepreneuriaid lleol gan roi hwb i'r economi leol trwy iaith a diwylliant.

**Adran D: sicrwydd ariannol**
**10. Defnyddio Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru**

Sut mae eich dyraniad CAYC ar gyfer 2020/21 yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r strategaeth a amlinellwyd yn Adran B, a beth yw'r blaenoriaethau a ragwelir gennych ar gyfer defnyddio cyllid CAYC dros y blynyddoedd nesaf? [Uchafswm o 250 o eiriau – neu rhowch dabl sy'n amlinellu meysydd buddsoddi bras ynghlwm wrth y ddogfen hon] Mae'r tabl isod yn cyflwyno ein blaenoriaethau buddsoddi cychwynnol a thymor hwy wedi'u mapio yn erbyn ein nodau strategol a gyflwynwyd yn flaenorol yn nhair adran Rhan B.


Bydd y rhain yn gysylltiedig â **chynllun gweithredu** a chynllun gwariant yn dilyn cymeradwyo'r strategaeth hon.

| Cynnwys Penodol | Nodau | Blaenoriaethau Buddsoddi Cychwynnol | Blaenoriaethau Buddsoddi Tymor Hwy |
|---|---|---|---|
| *Masnacheiddio / cynhyrchu incwm* | 1. Ennill rhagor o incwm ymchwil ac arloesi trwy gystadleuaeth | • Ehangu ar yr adnodd i gefnogi ceisiadau UKRI<br>• Ystyried y potensial o ehangu gweithgarwch Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth | • Ehangu'r sylfaen sefydliadol ar gyfer gweithgareddau UKRI gyda phwyslais cryf ar Innovate UK.<br>• Sefydlu Swyddfa Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth Gogledd Cymru dan arweiniad Prifysgol Bangor gyda phartneriaid Addysg Uwch ac Addysg Bellach. |
| | 2. Gwireddu Agenda Arloesi ar Sail Lle (Cilgant Arloesi Gogledd Cymru); | • Cefnogi adnodd ar gyfer Bargen Twf y Gogledd gyda ffocws ar ddatblygu cynllun busnes a chyflawni'r camau cyntaf. | • Bargen Twf y Gogledd - cefnogi gweithredu, cyflawni a monitro<br>• Cyflwyno cynnig ar gyfer fframwaith newydd a sbarduno cyllid allanol ychwanegol gan |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | • Paratoi ar gyfer y fframwaith buddsoddi rhanbarthol newydd (trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin)<br>• Defnyddio cyfleoedd a nodwyd trwy Archwiliadau Gwyddoniaeth ac Arloesi i ddatblygu rhagor o geisiadau i gronfa Strength in Places.<br>• Ystyried mentrau rhanbarthol arwyddocaol eraill. | ddefnyddio buddsoddiadau'r Fargen Twf fel plethwaith.<br>• Datblygu ac ehangu ymhellach a chydnabod cryfderau ymchwil ar gyfer cyd-destun ar sail lle.<br>• Dilyn cyfleoedd buddsoddi rhanbarthol newydd ychwanegol. |
| | 3. Gwella perfformiad sefydliadol o ran y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth | • Ehangu'r adnodd i ddarparu'r Concordat Cyfnewid Gwybodaeth o ran datblygu busnes a chynyddu cefnogaeth aliniedig.<br>• Archwilio gwahanol lwybrau masnachol ar gyfer cyflawni Gwaith Ymgynghorol a Masnachol<br>• Darparu cyfleoedd hyfforddi a rhwydweithio mewn perthynas â'r Concordat Cyfnewid Gwybodaeth i'r sylfaen academaidd. | • Defnyddio adnoddau estynedig y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth mewn rôl ranbarthol ehangach.<br>• Cerbydau newydd i wneud Gwaith Ymgynghorol / Masnachol.<br>• Ehangu sylfaen academaidd weithredol y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth. |
| | 4. Gwella ein hisadeiledd ymchwil ac arloesi | • Integreiddio isadeiledd presennol Arloesi ac Ymgysylltu yn well (gan gynnwys, M-SParc, Arloesi Pontio, y Ganolfan Biogyfansoddion a'n craidd ymchwil ac arloesi).<br>• Cefnogi'r adnodd craidd sy'n darparu cefnogaeth i waith Ymchwil ac Effaith | • Datblygiad Canolbwynt Gwyddoniaeth Campws Deiniol gan ymgorffori cyfleusterau ymchwil ac arloesi i'w rhannu a mannau glanio i fusnesau.<br>• Gwireddu buddsoddiadau'r Fargen Twf ac ehangu M-SParc.<br>• Gwella adnoddau i gefnogi Ymchwil ac Effaith er mwyn tyfu ein portffolio ymchwil ac arloesi. |
| | 5. Datblygu ac ehangu ein portffolio masnacheiddio. | • Cryfhau'r adnoddau sydd eu hangen i ehangu a datblygu ein portffolio o eiddo deallusol.<br>• Ystyried elfennau'r Gronfa Masnacheiddio | • Dull mwy ystwyth a chreadigol o ecsbloetio eiddo deallusol y Brifysgol.<br>• Cael mynediad at gronfeydd a llwybrau ecsbloetio ychwanegol.<br>• Gweithredu a rhoi Cronfa Masnacheiddio Prifysgol Bangor ar waith. |
| ***Twf busnes newydd a chefnogi sgiliau*** | 6. Gwella lefelau Cyflogadwyedd Myfyrwyr ledled y Brifysgol | • Adnodd ychwanegol i gefnogi ymwneud â chyflogwyr a darparu'r cynnig sefydliadol integredig craidd | • Datblygu mentrau Cyflogadwyedd Myfyrwyr ychwanegol a'u cysylltu â chryfderau Arloesi ac Ymgysylltu<br>• Portffolio ehangach o gyflogwyr strategol pwysig. |
| | 7. Hyrwyddo entrepreneuriaeth ymhlith y myfyrwyr | • Cryfhau'r llwybr Darganfod, Diffinio, Datblygu, Cyflwyno presennol. | • Datblygu cynigion newydd i ehangu entrepreneuriaeth myfyrwyr.<br>• Ehangu cyfleusterau deori a rhaglenni i gefnogi busnesau cychwynnol. |
| | 8. Cynyddu nifer y busnesau cychwynnol a gychwynnir gan raddedigion a'u | • Ehangu'r adnodd i gefnogi busnesau cychwynnol graddedigion | • Mentrau cymorth newydd i dyfu busnesau cychwynnol ymhellach, |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | hangori yn y rhanbarth fel rhan o eco-system Arloesi a Menter. | | gwella cyfraddau goroesi ac angori yn y rhanbarth. |
| | 9. Darpariaeth sgiliau arloesol ar gyfer yr economi ranbarthol | • Cynyddu cefnogaeth a gwella mynediad at ddarpariaeth sgiliau sy'n bwysig i'r rhanbarth. | • Cynnig darpariaeth well ac estynedig o sgiliau yn y rhanbarth |
| | 10. Archwilio opsiynau ar gyfer disodli KESS 2 gan adeiladu ar gyfraniad sylweddol y rhaglen. | • Ystyried opsiynau ar gyfer disodli KESS a chyfres o ddoethuriaethau a chymrodoriaethau diwydiannol. | • Beth bynnag a ddaw yn lle KESS yn weithredol.<br>• Portffolio newydd o gyfleoedd am ddoethuriaethau a chymrodoriaethau diwydiannol. |
| ***Cenhadaeth ddinesig ac ymwneud â'r cyhoedd*** | 11. Cefnogi cymunedau lleol i oresgyn heriau economaidd a chymdeithasol sy'n deillio o COVID-19; | • Parhau ac ehangu effaith mentrau cyfredol. h.y. Meddalwedd Iaith Gymraeg ar gyfer gweithio ac addysgu gartref, cynhyrchu cyfarpar diogelu personol, gwirfoddoli myfyrwyr. | • Datblygu cynigion tymor hwy i gefnogi adferiad cymdeithasol ac economaidd ar gyfer yr amgylchedd ôl-COVID. |
| | 12. Cyfoethogi ffyniant dwyieithog, diwylliannol, iechyd, cymdeithasol ac economaidd ein rhanbarth; | • Cynnal cyfraniadau presennol a nodi dulliau newydd ar gyfer yr amgylchedd ôl-COVID.<br>• Cefnogi Mentrau Cymdeithasol presennol (yn seiliedig ar eiddo deallusol Bangor)<br>• Edrych ar wella'r ddarpariaeth Dysgu Cymunedol bresennol yn ddigidol | • Mentrau newydd gan gynnwys dealltwriaeth gyhoeddus ranbarthol o brojectau gwyddoniaeth (e.e. Sw Mynydd Cymru, Parc Geo Môn a Phroject y Ddaear).<br>• Cefnogaeth i greu Mentrau Cymdeithasol newydd yn seiliedig ar eiddo deallusol Bangor a chan fusnesau cychwynnol myfyrwyr.<br>• Darpariaeth Dysgu Cymunedol newydd sydd wedi'i gwella'n ddigidol |
| | 13. Datblygu rhaglenni Estyn Allan Cymunedol ymhellach trwy fentrau blaenllaw; | • Gwella integreiddio mentrau presennol estyn allan i'r gymuned gan wella elfennau digidol fel rhan o'r ddarpariaeth normal newydd. | • Gwell darpariaeth ddigidol gan gynnwys cyfres TEDx Talks.<br>• Datblygu strategol pellach e.e. Gardd Fotaneg Treborth, Rhaglenni estyn allan ysgolion sy'n gysylltiedig ag Arloesi ac Ymgysylltu.<br>• Ehangu Gweithgareddau estyn allan cymunedol i gynnwys mentrau newydd. |
| | 14. Parhau i gael ein cydnabod fel Prifysgol Gynaliadwy. | • Sicrhau bod themâu trawsbynciol yn cael eu hintegreiddio yn rhan o weithgarwch newydd ôl-Brexit.<br>• Nodi cyfleoedd ôl-COVID i wella arferion a pherfformiad mewn perthynas â chynaliadwyedd. | • Arwain ar fentrau cynaliadwyedd rhanbarthol.<br>• Ehangu rôl goruchwylio a hyrwyddo'r Lab Cynaliadwyedd gan sicrhau integreiddiad pellach y themâu trawsbynciol a saith nod a phum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. |

| **Dyraniadau ariannol dangosol yn erbyn gweithgarwch / nodau ar gyfer Blwyddyn 2**<br>Rhagweld amrywiant posib o flwyddyn i flwyddyn rhwng penawdau o 10-20% | **Nodau** | **Swm (£)** |
|---|---|---|
| Grant Capasiti | 1 - 14 | 250 |
| Cefnogi Ymchwil a Rhagoriaeth Arloesi / Cefnogaeth UKRI | 1, 3, 4 | 1,500 |
| Arloesi ar Sail Lle / Adfywio Economi'r Rhanbarth | 2 | |
| Masnacheiddio, Eiddo Deallusol a Throsglwyddo Technoleg | 5 | |
| Mentrau Cyflogadwyedd a Sgiliau Myfyrwyr a Graddedigion | 6 – 10 | 550 |
| Cenhadaeth Ddinesig ac Ymwneud â'r Cyhoedd | 10 – 14 | 150 |
| Rheoli Adrodd, Data ac Allbynnau - Ymchwil ac Arloesi | 1 - 14 | 150 |
| **Cyfanswm** | | **2,600** |

| **Adran E:**<br>**Gofynion Rheoliadol**<br>*Sylwer: Gallai CCAUC ofyn am wybodaeth / eglurhad pellach ar unrhyw un o'r meysydd hyn* | |
|---|---|
| i) Safonau'r Gymraeg (2018)<br>*[Defnyddiwch y gwymplen]* | Mae'r strategaeth hon yn cydymffurfio â |
| ii) Asesiad Effaith Cydraddoldeb<br>*[Defnyddiwch y gwymplen]* | Mae asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i gynnal ar gyfer y strategaeth hon |
| iii) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)<br>*[Defnyddiwch y gwymplen]* | Bydd y strategaeth hon yn cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 |
| **Llofnod:**<br>**Is-ganghellor** | <br>Yr Athro Iwan Davies |
| **Dyddiad** | 28/09/2021 |

| Enw'r Sefydliad | Prifysgol Bangor | | |
|---|---|---|---|
| **Arweinydd Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru** | **Yr Athro Paul Spencer** | **E-bost**: | **p.spencer@bangor.ac.uk** |

Mae pob sefydliad yng Nghymru wedi llofnodi egwyddorion y Concordat Cyfnewid Gwybodaeth (CCG), ac wedi cytuno i gyd-fynd â'r ymrwymiad hwn trwy eu strategaethau CAYC. Fel rhan o'ch strategaeth Cyllid Arloesi Ymchwil Cymru (CAYC) dylech gynnal hunanwerthusiad yn erbyn wyth egwyddor arweiniol y Concordat CG a chynnal dadansoddiad bylchau. Dylid defnyddio'r tabl isod i grynhoi eich canfyddiadau, gan amlygu'ch pum prif flaenoriaeth. Bydd y tabl hwn yn cael ei gynnwys fel Atodiad i strategaethau CAYC a gyhoeddir yn y dyfodol. Bydd CCAUC yn gofyn i sefydliadau adolygu'r tabl hwn, ac adrodd ar gynnydd yn erbyn y camau blaenoriaeth allweddol, yn flynyddol fel rhan o brosesau'r Gronfa.

**Blaenoriaethau Allweddol (500 gair)**

| **Egwyddor y Concordat:** | I ba raddau y mae'ch Sefydliad Addysg Uwch yn bodloni'r egwyddor hon (ee ar raddfa o 1-4, lle mae 1 yn 'ddim o gwbl' a 4 yn 'llwyr')? | Lle mae bylchau wedi'u nodi yn yr ymarfer hunanarfarnu, rhowch fanylion eich cynllun gwella ar gyfer bodloni gofynion yr egwyddor hon. Nodwch yr adnoddau i gefnogi'r cynllun. | Nodwch y pum cam gweithredu blaenoriaeth uchaf ar gyfer eich darparwr addysg uwch.<br><br>Dylid cymryd y pum cam blaenoriaeth hyn ar draws yr wyth egwyddor (pump i gyd).<br><br>Nodwch lle mae camau blaenoriaeth yn draws-egwyddor. | Rhowch enghreifftiau o arferion arloesol sy'n dangos sut mae'ch darparwr addysg uwch yn bodloni'r egwyddor hon.<br><br>Rhowch o leiaf un enghraifft ar gyfer pob egwyddor, gyda phump ar y mwyaf fesul egwyddor. | Pa amserlenni sydd eu hangen i weithredu'r gwelliannau perthnasol (e.e. 0-6 mis, 6-12 mis, 12-18 mis, 18-24 mis, 24+ mis)? |
|---|---|---|---|---|---|
| **1. Eglurder cenhadaeth** | **3-4** | Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Brifysgol ei Chynllun Strategol Sefydliadol deng mlynedd newydd: Mae Gweledigaeth 2030 Byd Cynaliadwy i Genedlaethau'r Dyfodol yn gosod y weledigaeth ganlynol i Fangor *"Prifysgol ac iddi gysylltiadau byd-eang, sy'n gwireddu cyfleoedd ar gyfer llwyddiant trwy ymchwil ac addysgu trawsnewidiol ac arloesol a sbardunir gan effaith, gyda ffocws ar gynaliadwyedd: diogelu'r amgylchedd, adfywio iechyd cymdeithas, a hyrwyddo ffyniant economaidd, cymdeithasol, dwyieithog, a diwylliannol."*<br><br>O ganlyniad datblygwyd Strategaeth a Fframwaith Ymchwil ac Effaith i gynnig fframwaith cynllunio strategol ar gyfer ymchwil ac effaith. Mae'r fframwaith yn cynrychioli newid cyfeiriad o ran sylw a dull gweithredu a bydd yn cyfuno'r holl elfennau a arferai fod ar sawl agenda rhannol gysylltiedig, sef ymchwil, effaith, busnes a chysylltu â menter. Mae dull tebyg yn cael ei ddefnyddio ar gyfer elfen Cenhadaeth Ddinesig y strategaeth newydd. | **1. Diweddaru ac alinio strategaeth CAYC yng ngoleuni Strategaeth 2030 a'r Strategaeth a'r Fframwaith Ymchwil ac Effaith cysylltiedig.** | Roedd y Brifysgol wedi datblygu seilwaith cyfarfodydd i gyd-fynd â'r Strategaeth er mwyn sicrhau bod Cyfnewid Gwybodaeth (CE) yn rhan annatod o'r ymdrech Ymchwil ac Effaith ehangach.<br>Mae strwythur newydd IRIS yn cynnwys tri thîm, (Busnes a Sgiliau, Masnacheiddio ac Effaith), sy'n sicrhau bod CG yn weladwy ar draws gwaith IRIS. Caiff hyn ei wella ymhellach drwy sefydlu tri sefydliad ymchwil newydd ar gyfer pob un o Golegau'r Brifysgol (Celfyddydau, Dyniaethau) a Busnes, Gwyddorau Amgylcheddol a Pheirianneg a'r Gwyddorau Dynol) i arwain at gysondeb o ran dull gweithredu a chysylltiad agosach fyth rhwng gweithgarwch CG gwaith arall Ymchwil ac Effaith.<br><br>Mae Panel CCG y Brifysgol (Cyfnewid Gwybodaeth a Masnacheiddio) yn goruchwylio materion gweithredol ac yn adrodd i'r Pwyllgor Gwaith trwy'r Grŵp Tasg Ymchwil, Arloesedd ac Effaith. Cymerir ymagwedd debyg Grŵp Tasg Cenhadaeth Ddinesig sy'n goruchwylio'r agenda cenhadaeth ddinesig ehangach yn y sefydliad. | 0-6 mis |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Ochr yn ochr â hyn roedd y Brifysgol wedi ymgymryd ag ailstrwythuro mawr o'i Gwasanaethau Proffesiynol gan arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer yr unedau. Fel rhan o’r ad-drefnu sefydlwyd uned newydd o fewn y Gwasanaethau Corfforaethol, IRIS (Gwasanaethau Ymchwil ac Effaith Integredig) ac o fewn IRIS y mae'r cyfrifoldeb am weithredu strategaeth CAYC.<br><br>Dengys ein dadansoddiad bylchau fod gweithredu'r strategaeth sefydliadol newydd a gweithredu'r strwythurau newydd yn ganolog i'r egwyddor hon. Yn arbennig y canlynol:<br><br>• Diweddaru strategaeth CAYC i fodloni’r amgylchedd gweithredu newydd a gweledigaeth a blaenoriaethau newydd y sefydliad.<br>• Gweithredu'r strwythur IRIS newydd gan gynnwys penodi i swyddi newydd a gefnogir gan CAYC, yno ac ar draws y Brifysgol. | | Ymhellach, mae grŵp Rhanddeiliaid CAYC ar draws y Brifysgol wedi'i sefydlu i oruchwylio proses strategaeth CAYC a chadw golwg ar adroddiadau a pherfformiad. | |
| **2. Polisïau a phrosesau** | **3** | Mae Bangor wedi sefydlu polisïau ar gyfer Cyfnewid Gwybodaeth. Mae'r rhain yn cynnwys polisïau Ymgynghori ac Eiddo Deallusol ac ystod eang o gytundebau ymchwil cydweithredol a chytundebol. Mae'r Brifysgol wedi nodi bod angen adolygu a diweddaru nifer o'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn (gan gynnwys Ymgynghoriaeth, Masnacheiddio ac Eiddo Deallusol, Strategaeth Ymgysylltu Busnes). Datblygwyd llawer o'r rhain ar gyfer cyd-destun gweithredu gwahanol ac mae angen eu hadnewyddu a'u halinio â'r strwythurau newydd yn y gwasanaethau proffesiynol ond hefyd o fewn y maes academaidd. Bydd hyn yn cael ei arwain gan IRIS gyda mewnbwn cymorth priodol gan gydweithwyr academaidd a gwasanaethau proffesiynol. Yn ogystal, bydd y rhain yn cael eu cysylltu’n well i gefnogi’r gwaith o gyflawni Dangosyddion Perfformiad Allweddol sefydliadol ac arferion gweithredu newydd h.y. Digidol yn Gyntaf) yn ogystal ag adlewyrchu’r newid diwylliant ehangach a geisir gan *Strategaeth 2030* | **2. Adnewyddu polisïau a phrosesau cysylltiedig â’r Concordat gan gynnwys optimeiddio i gefnogi twf ac aliniad strategaeth**. | Cynyddir Panel CCG y Brifysgol i sicrhau cynrychiolaeth draws-golegol a sicrhau aliniad gyda Sefydliad Ymchwil newydd y Coleg Bydd nifer o brosiectau arloesol yn llywio datblygiadau. Er enghraifft mae'r Brifysgol wedi comisiynu Grahame Guilford & Co i gynnal adroddiad ar y Brifysgol yn datblygu dull mwy masnachol o ymdrin â’i gweithgareddau Ymchwil ac Effaith a fydd yn cynnig argymhellion i'w hystyried ymhellach. | 12-18 mis |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **3. Ymgysylltu** | **3** | Mae Bangor wedi meithrin perthnasoedd effeithiol gyda phartneriaid allanol ar draws y sefydliad gan gynnwys gweithio rhanbarthol, cydweithio busnes llwyddiannus (gyda busnesau bach a chanolig a chwmnïau rhyngwladol yn ogystal â'r Llywodraeth, y sector cyhoeddus a mentrau cymdeithasol. Mae gennym lwybrau lluosog, ond clir i sefydliadau ac unigolion gael mynediad at gyswllt cychwynnol er ein bod yn cydnabod bod angen gwneud mwy i wella hyn a thynnu sylw pellach at gyfleoedd. Mae *Strategaeth 2030* yn darparu'r cyd-destun strategol ar gyfer y gwelliannau hyn. Yn y thema trawsnewidiol *'Effaith Economaidd, Cymdeithasol a Dinesig',* ceir y flaenoriaeth '*Prifysgol hygyrch'* (ochr yn ochr â*Ffyniant cymdeithasol ac economaidd, Cefnogi busnes a sgiliau* a *Cymunedau cydlynol, gwydn*). Mae'n dadansoddiad o fylchau wedi dangos bod angen i sawl peth ddigwydd er mwyn gwella'r broses o gyflawni'r egwyddor hon. Mae'r rhain yn cynnwys:<br>• Mynd i'r afael ag arferion ymgysylltu amrywiol ar draws y Brifysgol, gweithdrefnau safonol a gwell trefniadau rhannu gwybodaeth. Ymdrinnir â hyn yn rhannol gan ddatblygiad egwyddor 2., buddsoddiadau CAYC mewn systemau sylfaenol (fel CRM a rennir) ac mae'r strwythurau trefniadol newydd yn cynnwys IRIS a Chanolfannau Ymchwil y Colegau. Sicrhau bod arfer gorau yn cael ei rannu a'i fabwysiadu, a bod cyfleoedd traws-sefydliadol yn cael eu manteisio arnynt i'r eithaf.<br>• Rhannu neges graidd yn canolbwyntio ar fynediad i Wybodaeth a Thalent a fydd wrth wraidd pob ymgysylltiad allanol ac a ddefnyddir i ddyfnhau perthnasoedd newydd a'r rhai sy'n bodoli'n barod.<br>• Sicrhau y ceisir adborth gan bartneriaid a defnyddwyr allanol a'i fod yn llywio dulliau gweithredu yn y dyfodol. | **3. Mabwysiadu polisi Ymgysylltu Busnes newydd wedi'i ategu gan CRM sefydliadol** | At hynny, mae angen i gyfleoedd i ymgysylltu gael eu rhannu'n well ar draws y sefydliad a'r tu allan i'n [Canolbwynt Cydweithio]() presennol. Bydd tudalennau gwe yn cael eu gwella ymhellach i ddarparu pwynt mynediad unedig ar gyfer ymholiadau gwybodaeth a thalent. Yn ogystal, mae ein noddi a chynnal Gwobrau Busnes Llwyddiant Cymru blynyddol y Daily Post wedi hwyluso un o brif ddigwyddiadau calendr Busnes Gogledd Cymru, gan groesawu arweinwyr busnes a busnes o bob rhan o'r rhanbarth i'r Brifysgol i ddathlu eu llwyddiannau niferus. Mae trafodaethau ar y gweill ar gyfer cynnal y digwyddiad eto ar ôl covid.<br><br>Ar ben hynny, mae'r Brifysgol yn ymgysylltu'n rhagweithiol â Llywodraethau San Steffan a Chaerdydd wrth iddi ddatblygu ei hagenda seiliedig ar leoliad. Mae hyn wedi arwain at nifer o ymweliadau gweinidogol yn ddiweddar gan y ddwy Lywodraeth â'r Brifysgol a phrosiectau blaenllaw fel y Ganolfan DSP, M-SParc ac Ysgol Feddygol Gogledd Cymru. | 6-12 mis |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **4. Gweithio mewn modd tryloyw a moesegol** | **3** | Fel Prifysgol rydym yn cyfleu ein cyfrifoldebau fel Sefydliad Addysg Uwch i'n partneriaid a'r amgylchedd rheoleiddio yr ydym yn gweithredu ynddo a sy'n cael ei ategu gan y trefniadau cytundebol a roddwn ar waith ar gyfer gweithgareddau CG penodol. Mae gennym bolisi cyhoeddedig ar eiddo deallusol ac ymgynghoriaeth ac rydym yn defnyddio cytundebau peidio â datgelu i barchu cyfrinachedd partneriaid. Mae gennym bolisïau, gweithdrefnau a strwythurau cynhwysfawr sydd ar gael i'r cyhoedd yn ymwneud â moeseg a llywodraethu ymchwil. Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar waith gyda phartneriaid strategol allweddol ac mae cytundebau wedi'u llofnodi yn eu lle i gyrff o bwysigrwydd rhanbarthol fel Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.<br><br>Mae'n dadansoddiad bylchau yn dangos yr angen i gysoni CG ymhellach â gweithgareddau Ymchwil ac Effaith ehangach a chefnogi gwerthfawrogiad ehangach o sut mae CG yn cefnogi uchelgeisiau Y ac E ehangach a chydgyfeiriant Y ac E, ymgysylltu a menter. At hynny, mae'r dulliau a drafodir yn egwyddorion 2 a 3 yn ategu ymdrechion yn yr adran hon ymhellach. | | Mae cyfres o gytundebau templed Eiddo Deallusol, Masnacheiddio ac Ymgynghori ar gyfer staff gweithredol CG ar gael ar wefan fewnol y Brifysgol. Ategir y rhain gan sesiynau datblygiad proffesiynol mewnol a hyfforddiant. Yn ddiweddar, mae'r Brifysgol wedi penodi Cynorthwy-ydd -PVC ar gyfer Llywodraethu Ymchwil a fydd yn cynnwys goruchwylio rhyngweithiadau CG fel rhan o friff Ymchwil ac Effaith ehangach. | 12-18 mis |
| **5. Adeiladu Capasiti** | **3** | Wrth symud ymlaen mae cefnogaeth CG y Brifysgol o fewn IRIS, sy'n wasanaeth integredig sy'n cyfuno CG â'r darlun Y ac E ehangach. Caiff capasiti ei wella gyda chyfres o benodiadau a gefnogir gan CAYC yn IRIS ond yn ehangach ar draws gwasanaethau proffesiynol a strwythurau academaidd. Ychwanegir at hyn ymhellach gan fuddsoddiad mewn systemau newydd megis y *worktribe* (system rheoli grantiau Y ac E). Yn ogystal, bydd cymorth CAYC yn darparu cyllid cyfatebol ar gyfer ceisiadau cynnal a chadw seilwaith ymchwil, mynd i'r afael â llywodraethu ymchwil, darparu rhai ysgoloriaethau ymchwil PhD a chyllid ysgogi ar gyfer mentrau mawr, cefnogi meithrin gallu yn gyffredinol. | **4. Gweithredu strwythur IRIS newydd gyda phenodiadau cysylltiedig â chymorth CAYC wedi'u gwneud i gryfhau capasiti Y ac E a chyflymu'r broses o gyflawni amcanion strategol.** | Mae'r rhaglen KESS 2 yn enghraifft wych o sut mae'r nodwydd wedi symud ym Mangor a chymhwysedd wedi'i adeiladu. O ganlyniad mae KESS wedi ychwanegu niferoedd PhD a Meistr Ymchwil yn sylweddol. Cyflwynir y ddarpariaeth hon ar y cyd â sefydliadau allanol sy'n noddi'r ysgoloriaethau'n rhannol. Mae hyn yn ei dro wedi arwain at newid diwylliant ehangach a mwy o gapasiti i ymgymryd â chydweithio ychwanegol a chyflenwol.<br><br>Mae Parc Gwyddoniaeth y Brifysgol, M-SParc hefyd wedi arwain at dwf sylweddol mewn capasiti sydd wedi agor ystod o gyfleoedd CG newydd gan gynnwys Eiddo Deallusol a Masnacheiddio, Interniaethau, Prentisiaethau | 0-6 mis |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Rydym wedi sefydlu dulliau gweithredu ar gyfer cefnogi staff (proffesiynol ac academaidd) a myfyrwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â CG. Rydym yn aelod gweithgar o rwydwaith WILO sy'n fforwm pwysig i rannu arfer gorau ac i ddysgu am ddulliau arloesol. Rydym hefyd yn aelodau o PraxisAuril (corff proffesiynol CG y DU) ac yn cymryd rhan yn eu cynadleddau a'u darpariaeth hyfforddiant.<br><br>Rydym yn ymgysylltu'n weithredol â rhwydweithiau a sefydlwyd trwy bartneriaethau rhanbarthol (Byrddau Uchelgais Economaidd a Phartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol).<br><br>Dengys ein dadansoddiad bylchau fod penodiadau cymorth CAYC newydd yn hollbwysig er mwyn meithrin gallu a strwythurau newydd gweithredol ymhellach. Wedi cyflawni hyn, mae nifer o gamau ychwanegol i'w cymryd. Mae'r rhain yn cynnwys<br>• Mwy o hyfforddiant CG/YacE ar gyfer yr holl staff i gyd-fynd â'r Concordat Datblygu Ymchwil.<br>• Mwy o ddefnydd o dalent israddedig, ôl-raddedig a graddedig i alluogi cydweithrediadau CG ac wrth wneud hynny adeiladu gallu CG, gwella cyflogadwyedd a chadw arbenigedd yn rhanbarthol. | | Gradd, Datblygu Sgiliau, Menter Myfyrwyr ac Ymgysylltiad Cymunedol i nodi rhai ohonynt. | |
| **6. Cydnabod a Gwobrwyo** | **3** | Mae cynnydd yn cael ei wneud ar yr Egwyddor hon, yn enwedig gwreiddio Llwybr Effaith ac Ymgysylltu ar gyfer meini prawf dyrchafiad staff academaidd. Ceir tystiolaeth o hyn gan ystod o enghreifftiau o gydweithio llwyddiannus gyda sefydliadau allanol, cyfraniadau at friffiau polisi, patentau a phenodiadau i rolau allanol. Gan edrych ymlaen, mae *Strategaeth 2030* yn cael ei thanlinellu gan thema drawsnewidiol *'pobl a thalent'* sy'n cynnwys fel blaenoriaeth '*Gwobrwyo Talent*'. Yn ogystal, mae'r | | Mae'r Brifysgol yn ceisio cydnabod a dathlu llwyddiannau CG ac mae ganddi hanes rhagorol o wneud hyn dros nifer o flynyddoedd. Y gamp fwyaf diweddar oedd llwyddiant Dysgu Iaith Pai yng Ngwobrau Cychwyn Busnes Cymru yn ddiweddar. Mae Pai Language Learning, yn gwmni a grëwyd gan raddedigion o Brifysgol Bangor, Josef Roberts a Simon Parry-Williams, a enillodd y Wobr Cychwyn Busnes i Raddedigion, a noddir gan Brifysgolion Cymru. Mae Pai wedi derbyn cefnogaeth sylweddol gan M-SParc, y gwasanaeth Byddwch Fentrus, Prifysgolion Santander a Syniadau Mawr Cymru a ariennir | 6-12 mis |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Fframwaith a'r Strategaeth Y ac E newydd yn cynnwys pennod ar Newid Diwylliant a Chysondeb gydag ymrwymiad i ddarparu amgylchedd a diwylliant sy'n cefnogi ac yn gwobrwyo perfformiad Y ac E. Fel rhan o'n dadansoddiad bylchau rydym wedi nodi nifer o gamau pellach i'w cymryd. Mae'r rhain yn cynnwys<br>• Monitro'r defnydd o lwybr dyrchafiad Y ac E i academyddion a mynediad os yw'n adlewyrchu gweithgaredd a llwyddiant ar lawr gwlad yn ddigonol.<br>• Hyrwyddo diwylliant o lwyddiant sy'n dathlu ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i gyflawniadau yn fewnol ac yn allanol.<br>• Ystyried ailgyflwyno Gwobrau Ymchwil ac Arloesedd blynyddol y Brifysgol.<br>• Adnewyddu polisi ymgynghori a mecanweithiau gwobrwyo cysylltiedig. | | gan Lywodraeth Cymru a daethant yn denantiaid M-SParc trwy Ofod Cydweithio Deor Prifysgolion Santander. Ers hynny maent wedi symud i'w swyddfa fechan eu hunain, gyda chynlluniau cyffrous ar gyfer y flwyddyn i ddod i lansio eu technoleg arloesol i ddysgu iaith.<br><br>Hefyd, yn ddiweddar enillodd cwrs allgyrsiol arloesol amlddisgyblaethol Prifysgol Bangor, Menter drwy Ddylunio, y categori Catalydd Menter yng Ngwobrau Cenedlaethol Addysgwyr Menter. Mae'r categori Catalydd Menter ar gyfer unigolyn neu dîm o addysg uwch neu addysg bellach sy'n darparu addysg neu ymarfer menter eithriadol yn y cwricwlwm neu tu allan i'r cwricwlwm.. | |
| **7. Gwelliant parhaus** | **3** | Mae *Strategaeth 2030* ar frig hierarchaeth ein fframwaith strategol, ac yn darparu gweledigaeth hirdymor ar gyfer ein themâu strategol tymor canol (is-strategaethau) a'n gwaith cynllunio busnes blynyddol a fydd yn mynegi sut y byddwn yn gweithredu ein gweledigaeth strategol hirdymor. Yn ategol at y rhain ceir mentrau strategol neu 'brojectau naid cwantwm' - cynlluniau sylweddol (megis Ysgol Feddygol Gogledd Cymru) i'w rhoi ar waith er mwyn cyflymu'n gweledigaeth strategol.<br><br>Bydd ein hymrwymiad i welliant parhaus yn y cyd-destun hwn yn digwydd drwy gyfres o gamau.<br><br>gwella casglu a dadansoddi data ar draws tablau arolwg HE-BCI.<br><br>Ymgysylltu'n weithredol ag adborth partneriaid a rhanddeiliaid trwy werthusiadau i wella gweithgareddau a llywio'r gwaith o gynllunio gweithgareddau CG newydd.<br><br>Archwilio a gwerthuso dulliau CG ac Y ac E mewn sefydliadau cymheiriaid a chymryd | | Mae Strategaeth a Fframwaith newydd y Brifysgol yn cynnwys ymrwymiad i welliant parhaus ar draws pob agwedd o weithgaredd Y ac E cyn ac ar ôl dyfarnu perfformiad academaidd ac mae gwasanaethau proffesiynol yn cefnogi dadansoddi data ynghyd â DPAau wedi'u rhaeadru ar lefel Prifysgol, Coleg, Ysgol a Thîm | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | rhan weithredol mewn rhwydweithiau cysylltiedig (ee WIN).<br><br>Adolygu cynnydd yn erbyn wyth egwyddor CCG yn rheolaidd a diweddaru cynlluniau yn unol â hynny. | | | |
| **8. Gwerthuso Llwyddiant** | **3** | Mae *Gweledigaeth 2030* yn cynnwys ymrwymiad i symud nodau strategol yn eu blaenau trwy fframwaith o dargedau a dangosyddion perfformiad allweddol, wedi'u halinio â'r pedair piler strategol a'r pedair thema drawsnewidiol, a fydd yn cael eu halinio'n weithredol drwy gylch cynllunio busnes blynyddol y Brifysgol. Bydd y dadansoddiad blynyddol o berfformiad arolwg HE-BCI yn cael ei ategu ymhellach gan feincnod yn erbyn Sefydliadau Addysg Uwch eraill. Bydd hyn yn asesu perfformiad yn feirniadol yn erbyn mesurau Y ac E cenedlaethol yn ogystal â nodi materion i fynd i'r afael â nhw. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno drwy'r Panel CCG a RIISG i Bwyllgor Gweithredol y Brifysgol. Bydd ein strwythur trefniadaethol newydd yn sicrhau mwy o berchnogaeth ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n ymwneud â CG trwy eu gwreiddio yn y cylch cynllunio sefydliadol ehangach. Bydd y broses cynllunio busnes blynyddol yn pennu sut y caiff adnoddau eu dyrannu a fydd yn cyd-fynd â chyflawniad dangosyddion perfformiad allweddol, nodau a gweledigaeth strategol hirdymor y brifysgol, a bydd yn galluogi cydweithredu a chysondeb rhwng meysydd gwasanaeth academaidd a phroffesiynol. | **5. Ymgorffori DPAau sy'n ymwneud â RWIF mewn cynllunio ac adrodd sefydliadol ehangach.** | Dangosodd bylchau a nodwyd yn ein dadansoddiad o fylchau am gipio data cysylltiedig â CG yn well effeithiau ehangach ein CG a sut mae'n llywio ac yn cefnogi ein huchelgeisiau Y ac E ehangach. Mae'r dadansoddiad HE-BCI cyfredol yn ein galluogi i nodi meysydd llwyddiant (yn ogystal â meysydd y mae angen eu gwella) gan alluogi buddsoddiadau call i gefnogi perfformiad gwell. Wrth symud ymlaen, bydd y broses hon yn cael ei gwella drwy integreiddio'n agos â dadansoddiad perfformiad sefydliadol craidd yn ogystal ag arfarniad tymor hwy o effaith ein gweithgarwch CG yn enwedig y rhai a ariennir gan gronfeydd strwythurol. | 0-6 mis |